**Rhif: 4**

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais:** | **C17/0011/19/MW** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **02/02/2017** |
| **Math y Cais:** | **Mwynau** |
| **Cymuned:** | **Bontnewydd** |
| **Ward:** | **Bontnewydd** |
| **Bwriad:** | **Cais am waith sy'n gysylltiedig ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd, gan gynnwys:**<br>**• Defnyddio tir fel estyniad i ardal safle'r compownd cyfredol a darparu sied gynnal a chadw, gofod swyddfa, lles a chyfleusterau parcio ceir, storfa danwydd, tanc storio carthion, offer swp-gynhyrchu concrid symudol, offer swp-gynhyrchu asffalt symudol a darparu llwybr cludo (defnydd dros dro hyd at 10 mlynedd)**<br>**• Adeiladu ffordd gludo newydd ar ffin ogleddol y chwarel bresennol gyda chysylltiad dros dro â llwybr ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd yn ystod y cyfnod adeiladu**<br>**• Parhau i echdynnu mwynau, tynnu deunyddiau o ddyddodion gwaith mwynau a stoc presenol o ddeunyddiau**<br>**• Adeiladu lleiniau caled a gosod peiriannau ar gyfer prosesu a sgrinio deunyddiau**<br>**• Gwaredu deunyddiau gwastraff anadweithiol ar gyfer gwaith peirianneg chwarel hirdymor / adfer.** |
| **Lleoliad:** | **Gweithiau Seiont, Ffordd Felin Seiont, Caernarfon, LL55 2YL** |
| **Summary of the Recommendation:** | AWDURDODI UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD I BENDERFYNU'R CAIS DAN BWERAU DIRPRWYEDIG |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig gwella Cefnffordd yr A487 drwy ddarparu ffordd osgoi 9.7km ar gyfer aneddiadau Caernarfon a Bontnewydd. Mae Cefnffordd yr A487 yn ffurfio rhan o'r prif rwydwaith ffyrdd strategol yng Ngogledd Cymru sy'n cysylltu â choridor yr A55 ymhellach draw ar hyd yr arfordir. Bydd cynllun y ffordd osgoi yn gwella problemau tagfeydd traffig yn ardal Caernarfon a Bontnewydd gan ddarparu cyswllt rhwng rhannau wedi'u gwella o'r Gefnffordd a mynd i'r afael â'r angen am seilwaith ffyrdd o ansawdd cyson.

1.2 Mae hwn yn un o ddau gais cynllunio cyfredol sydd wedi'u cyflwyno ar gyfer cynigion i ddatblygu'r safle ar y cyd â chynllun ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd. Mae'r holl elfennau sy'n llunio rhan o'r cais cysylltiedig, sef C17/0107/19/LL, i ddefnyddio safle'r hen weithfeydd brics fel compownd contractwyr a gwaith peirianneg i ledaenu ffordd gludo bresennol y chwarel, wedi eu cynnwys yn y cynigion datblygu sydd dan ystyriaeth yma.

1.3 Chwarel friciau clai a hen ffatri frics yw safle'r cais sydd wedi'i leoli i'r de o Gaernarfon ac mae'n cynnwys lefelydd y chwarel, ardaloedd mawr o leiniau caled ar ddwy ochr Afon Seiont, porfa fras ar hyd wyneb uchaf y gweithfeydd i'r dwyrain a mynedfa gerbydol sy'n cysylltu Ffordd Melin Seiont â chylchfan Pont Seiont. Mae'r chwarel wedi ei chloddio i mewn i'r hyn arferai fod yn fryn crwn a adwaenid fel Pen y Bryn, y mae ei lethr yn codi tua'r dwyrain a'r de o gyfeiriad Afon Seiont a thuag at Gaeathro. Roedd yr ehangiad i waith y chwarel yn ystod yr 20fed Ganrif yn cynnwys echdynnu'r dyddodion mwynau i tua 13 metr islaw lefel yr afon. Symudwyd llawer iawn o orlwythau a chlog glai (til) oddi yno yn ystod ymgyrch olaf cytundeb echdynnu yn 2000 a rhoddwyd y deunyddiau mewn bwnd ar hyd ffin ogleddol y safle ac fe blannwyd coed a llwyni brodorol drosto i'w gadw o olwg yr eiddo preswyl i'r gogledd. Mae ardal ar ymyl de-ddwyrain wyneb y gwaith wedi ei ddynodi fel Safle Daearegol/Geomorffoleg Ranbarthol Bwysig (RIGS).

1.4 Mae'r ymgeisydd wedi cynnal ymarferiad cyn-ymgynghori llawn ar y cynigion datblygu yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2016 (Rheoliadau PAC). Mae adroddiad llawn a chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys gyda'r cais cynllunio.

1.5 Mae cynigion y datblygiad yn cynnwys ail-gychwyn echdynu mwynau o'r chwarel yn unol â'r caniatâd cynllunio cyfredol; ond hefyd i fewnforio deunyddiau dros ben o gynllun y ffordd osgoi ar gyfer gwaith adfer ac i wella diogelwch a chadernid y llethr ar wynebau'r chwarel. Bydd y cynllun yn hefyd cynnwys gwaith peirianneg i ledaenu ffordd gludo bresenol y chwarel ar wyneb y gwaith tua'r de ddwyrain, yn ogystal â ffordd gludo newydd, ac ehangu'r gwaith ar yr ochr gogledd-ddwyrain i'w defnyddio wrth adeiladu'r ffordd osgoi. Yn gysylltiedig â'r cynllun hwn, bydd y compownd bychan a sefydlwyd yn yr iard gwaith brics yn cael ei ymestyn i ddarparu compownd diogel i'r contractwr gyda swyddfeydd, cyfleusterau lles, gofod parcio ceir, adeiladu sied cynnal a chadw peiriannau, gwaith asffalt a choncrid, cyfleuster prosesu deunyddiau a storfa danwydd wedi'i bwndio nes daw cytundeb y ffordd osgoi i ben.

1.6 Mae'r awdurdod wedi ymgynghori ddwywaith ar y cais hwn er mwyn rhoi ystyriaeth i wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn unol â Rheoliad 22 Rheoliadau EIA (Asesiad Effaith Amgylcheddol). Mae'r wybodaeth ychwanegol yn cadarnhau mai dim ond mewn cysylltiad â gwaith adeiladu'r ffordd osgoi y bydd y llwybr gludo ogleddol yn angenrheidiol ac nid yw bellach yn cael ei gynnig fel mynediad parhaol i gerbydau i'r chwarel.

1.7 Ceir manteision economaidd, logistaidd ac amgylcheddol o ddefnyddio'r chwarel mewn cysylltiad ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 o Gaernarfon i Bontnewydd. Mae Chwarel Seiont wedi'i lleoli yn union gerllaw llwybr arfaethedig y ffordd osgoi a bydd yn bodloni'r mwyafrif o ofynion mwynau'r cynllun a byddai argaeledd y safle yn haneru nifer siwrneai cerbydau trymion ac yn lliniaru nifer y milltiroedd a deithir gan gerbydau trymion ar ffyrdd cyhoeddus yn ystod y cyfnod adeiladu o ddwy flynedd. O ganlyniad, gwneir arbediad sylweddol o ran faint o danwydd a ddefnyddir, bydd lleihad mewn allyriadau cerbydau a bydd yn arwain at ddod â chynigion ar gyfer adfer y safle ymlaen.

1.8 Bydd yr iard friciau i'r gorllewin o Afon Seiont yn cael ci gloddio i dynnu 11,000m3 o dir-gwneud i ddarparu deunydd llenwi i ffurfio cafn gyda chorff o ddŵr bas, parhaol ac yn cael ei adfer er dibenion cadwraeth ac amwynder.

**Asesiad Effaith Amgylcheddol:**

1.9.1 Cyflwynwyd y cais gydag Asesiad Effaith Amgylcheddol yn dilyn barn sgrinio gadarnhaol a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2015.
Mae'r awdurdod wedi dod i gytundeb ynghylch y materion allweddol i fynd i'r afael â hwy yn y Datganiad Amgylcheddol mewn barn sgopio ffurfiol a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2015, gan gynnwys: Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol, Asesiad Cynllunio Gwastraff (NCT 21): Gwastraff, Ecoleg a Chadwraeth Natur, Asesiad Tir Wedi'i Halogi, Treftadaeth Ddiwylliannol a gwneud cofnod archeolegol o nodweddion y gwaith brics sydd ar ôl, Hydroleg, Hydroddaeareg, Ansawdd Dŵr, Draenio, Asesiad risg llifogydd yn unol ag NCT 15 (Datblygu a Risg Llifogydd), Asesiad Traffig a Thrafnidiaeth, Asesiad Effaith Sŵn a Dirgryniad, Asesiad Ansawdd Aer, Goleuo, Ystyriaethau cyflogaeth/economaidd, Daeareg, Priddoedd, Asesiad Geodechnegol ac ystyriaethau RIGS (Safle Daearegol o Bwys Rhanbarthol), materion eraill (hawliau tramwy, gwella'r amgylchedd, effeithiau cymunedol a'r buddion cymunedol posib, ystyriaethau cymdeithasol-economaidd), effeithiau cronnus gyda'r cynllun ffordd arfaethedig, asesiad o rywogaethau planhigion ymledol anfrodorol, asesiad yng nghyd-destun gofynion Polisïau Cynllunio Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol a chanllawiau, Cynigion am ddefnyddio'r safle wedi'r datblygiad, a Chynllun Adfer.

1.10 Bydd angen ystyried unrhyw effeithiau anuniongyrchol ar ddynodiadau amgylcheddol Ewropeaidd ar wahân fel rhan o'r HRA a gynhelir yn unol â Rheoliad 61 Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 3.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Unedol 2001-2016.

2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**2.3 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

- POLISI STRATEGOL 1 **- Cymryd Ymagwedd Ragofalus**
- POLISI STRATEGOL 2 **- Yr Amgylchedd Naturiol**

- POLISI STRATEGOL 3 - **Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol**
- POLISI STRATEGOL 5 - **Datblygiadau fydd yn creu Risg**
- POLISI STRATEGOL 6 - **Ailddatblygu ac Ailddefnyddio Tir**
- POLISI STRATEGOL 7 – **Mwynau**
- POLISI STRATEGOL 8 – **Gwastraff**
- POLISI STRATEGOL 12 - **Trafnidiaeth**
- POLISI STRATEGOL 16 – **Cyflogaeth**

- POLISI A1 - **Asesiadau Amgylcheddol neu Asesiadau o Effeithiau Eraill**. Sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu effeithiau sylweddol a thebygol eraill ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.
- POLISI A3 - **Egwyddor Ragofalus**. Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad perthnasol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.
- POLISI B3 - **DATBLYGIADAU SY'N EFFEITHIO AR OSODIAD ADEILAD RHESTREDIG** Sicrhau nad yw cynigion yn cael effaith andwyol ar osodiad Adeiladau Rhestredig oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu at warchod cymeriad arbennig yr Adeilad Rhestredig a'r amgylchedd lleol.
- POLISI B6 - **Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon a Waliau'r Dref**. Gwrthod cynigion fydd yn achosi niwed arwyddocaol i henebion Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon.
- POLISI B7 – **Safleoedd o Bwysigrwydd Archeolegol -** Gwrthodir cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig ai peidio) neu eu gosodiad. Gwrthodir datblygiad fydd yn effeithio ar olion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd yr olion archeolegol.
- POLISI B8 – **Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a Môn (AHNE) -** Diogelu, cynnal a gwella cymeriad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig y safle.
- POLISI B12 - **Diogelu Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol** - Diogelu tirweddau, parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a allai achosi difrod sylweddol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu lleoliad.
- POLISI B14 - **Gwarchod Cymeriad Tirlun Parc Cenedlaethol Eryri** - Gwarchod cymeriad y dirwedd ym Mharc Cenedlaethol Eryri drwy wrthod cynigion sy'n ymwthio'n weledol a/neu sydd wedi'u lleoli yn ansensitif ac yn anghydnaws o fewn y dirwedd.
- POLISI B15 – **Gwarchod Safleoedd Cadwraeth Natur o Bwysigrwydd Rhyngwladol -** Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig safleoedd o'r fath.
- POLISI B16 – **Gwarchod Safleoedd Cadwraeth Natur o Bwysigrwydd Cenedlaethol -** Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd cenedlaethol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.
- POLISI B17 - **Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol -** Gwrthodir cynigion fyddai'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at warchod, hyrwyddo a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd hyn.
- POLISI B18 - **Gwarchod a Gwella Safleoedd Daearegol/Geomorffolegol Pwysig Rhanbarthol (RIGS) -** Gwrthod cynigion sy'n debygol achosi difrod sylweddol i safleoedd daearegol/geomorffolegol pwysig rhanbarthol (RIGS) oni bai bod yr angen am y bwriad yn gorbwyso gwerth y safle.

- POLISI B19 – **Coed, Coedlannau a Gwrychoedd sy'n cael eu Gwarchod -** Caniatáu cynigion fydd yn golygu colli neu ddifrod i goeden, coedlan neu wrych sy'n cael ei warchod dim ond pan fydd buddion economaidd a/neu gymdeithasol y datblygiad yn gwrthbwyso unrhyw niwed.
- POLISI B20 – **Rhywogaethau a'u Cynefinoedd sy'n Bwysig yn Rhyngwladol, yn Genedlaethol ac yn Lleol -** Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a'u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.
- POLISI B21 – **Coridorau Bywyd Gwyllt, Cysylltiadau Cynefinoedd a Cherrig Sarn -** Diogelu cyfanrwydd nodweddion tirwedd sy'n bwysig ar gyfer fflora a ffawna gwyllt oni bai fod rhesymau dros y datblygiad yn gorbwyso'r angen i gynnal y nodweddion ac y gellir darparu mesurau lliniaru.
- POLISI B23 – **Mwynderau -** Diogelu mwynderau'r ardal leol drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.
- POLISI B27 – **Cynlluniau Tirlunio**. Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirweddu meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.
- POLISI B28 – **Tir Ansefydlog**. Gwrthod cynigion ar dir ansefydlog neu ar dir cyfagos oni bai y gellir bodloni cyfres o feini prawf sy'n anelu i osgoi niwed i'r datblygiad a sefydlogrwydd tir cyfagos.
- POLISI B30 - **Tir neu Adeiladau wedi'u halogi**. Sicrhau bod cynigion i ddatblygu tir neu adeilad wedi ei lygru yn cael eu gwrthod oni bai gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i reoli'r llygredd neu gyfyngu arno.
- POLISI B32 - **Dŵr Wyneb -** Gwrthodir cynigion na fyddant yn cynnwys mesurau lleihau llifogydd neu fesurau lliniaru fydd yn arwain at ostwng cyfaint a graddfa'r dŵr wyneb fyddai'n cyrraedd ac yn llifo i afonydd a chyrsiau dŵr eraill.
- POLISI B33 – **Datblygiadau sy'n Creu Llygredd neu Boendod -** Gwarchod iechyd y cyhoedd, diogelwch mwynderau, neu ansawdd yr amgylchedd adeiledig neu naturiol o ganlyniad i lefelau uwch o lygredd.
- POLISI C3 - **Ailddefnyddio safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen**. Cymeradwyir cynigion sy'n rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen a leolir o fewn neu o gwmpas ffiniau datblygu cyn belled â bod y safle neu'r adeilad a'r defnydd yn addas.
- POLISI C9 - **Datblygu Mwynau Tu Allan i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn -** Caniateir safleoedd i ddatblygu mwynau ar sail cyfres o feini prawf sy'n cynnwys yr egwyddorion sy'n ymwneud â mwynderau'r trigolion lleol, yr effeithiau ar y dirwedd, manylion gweithredol a'r modd y gweithir y deunydd a gynhyrchir.
- POLISI C12 - **Cylchfeydd Rhagod -** Gwrthodir ceisiadau cynllunio i gloddio mwynau o fewn cylchfeydd rhagod a nodir ar y mapiau cynigion oni bai y gellir darparu cylchfeydd rhagod newydd sy'n adlewyrchu'r isafswm pellter y cyfeirir ato yn NCTM 1: Agregau.
- POLISI C14 - **Adfer ac Ôl-ofal -** Gwrthodir ceisiadau am weithfeydd mwynau oni bai bod cynllun adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd yn cael eu cynnwys, yn ogystal â manylion arian arfaethedig.
- POLISI C15 - **Symud Deunydd o Domen Gwaith Mwynau -** Cymeradwyir cynigion i dynnu deunydd o domen gwaith mwynau yn amodol ar feini prawf datblygu penodol gan gynnwys yr holl feini prawf sydd wedi'u nodi ym mholisïau C9 ac C10.
- POLISI C19 - **Pyllau Benthyg -** Caniateir pyllau benthyg ar yr amod y daw buddiannau amlwg i'r amgylchedd yn eu sgil a bod eu datblygu yn unol â pholisi cynllunio mwynau.
- POLISI C22 - **Cyfleusterau Rheoli Gwastraff -** Mae'n bosib caniatáu cynigion ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn ddarostyngedig ar ei fod yn dderbyniol yn nhermau'r 'Opsiwn Ymarferol Amgylcheddol Gorau', yr hierarchaeth gwaredu gwastraff, yr egwyddor agosrwydd a bod angen lleol cymunedol wedi ei brofi ar gyfer y datblygiad.

- POLISI C24 – **Safleoedd Tirlenwi / Tirgodi a Chasglu / Gwaredu Gwastraff Peryglus -** Angen i geisiadau ar gyfer tirlenwi/tirgodi a chasglu/gwaredu gwastraff gydymffurfio a chyfres o feini prawf yn ymwneud a'r angen, lleoliad, graddfa, gallu i reoli'r safle, darpariaeth ôl-ddefnydd derbyniol, mesurau lliniaru, effaith traffig ac nad yw'r datblygiad yn cael effaith niweidiol ar fuddiannau cadwraeth.
- POLISI CH25 **- Ffyrdd Newydd a Gwelliannau Ffyrdd -** Caniateir cynigion ar gyfer gwelliannau i ffyrdd presennol ac i rannau newydd o ffyrdd os bydd cyfiawnhad digonol am y datblygiad ar sail economaidd a diogelwch y cyhoedd ac na fydd effaith amgylcheddol annerbyniol. Bydd angen i ddatblygwyr brofi bod opsiynau eraill wedi eu hystyried ac mai'r cynllun fydd yn amharu lleiaf ar yr amgylchedd a ddewiswyd ac y gellir cydymffurfio gyda chyfres o feini prawf penodol.
- POLISI CH26 - **Gwarchod Llwybrau Ffyrdd Arfaethedig -** Gwarchodir tir sydd ei angen ar gyfer gwelliannau ffyrdd penodol rhag datblygiadau eraill (gweler y map cynigion).
- POLISI CH33 – **Diogelwch ar Ffyrdd a Strydoedd -** Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio â meini prawf penodol sy'n ymwneud â diogelwch y fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol i ymdrin â llif traffig o'r datblygiad a mesurau tawelu traffig.
- **CCA Gwynedd 2009 - Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd.**
- **CCA Gwynedd 2009 - Cynllunio a'r Iaith Gymraeg**
- **Canllaw Dylunio Gwynedd 2004.**

**Cynllun Datblygu Lleol ary Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026 Fersiwn Cyfansawdd yn cynnwys Newidiadau Materion yn Codi**
Polisi Strategol PS 5: Datblygiad Cynaliadwy
Polisi Strategol PS 6: Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd
Polisi Strategol PS 10: Darparu cyfleoedd ar gyfer economi ffyniannus
POLISI STRATEGOL PS 16: Gwarchod ac/neu wella'r amgylchedd naturiol
Polisi Strategol PS 17: Cadw neu wella asedau treftadaeth
Polisi Strategol PS 18: Rheoli Gwastraff
Polisi Strategol PS 19: Mwynau

POLICI AMG 2: GWARCHOD A GWELLA NODWEDDION A RHINWEDDAU SYDD YN UNIGRYW I GYMERIAD Y DIRWEDD LEOL
POLISI AMG 4: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol
POLISI AMG 5: Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol
POLISI AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau Cofrestredig, Parciau a Gerddi
POLISI AT 4 Diogelu Safleoedd Archeolegol nad ydynt wedi'u dynodi
POLISI CYFF 1: Meini Prawf Datblygu
POLISI CYFF 3 Dylunio a Thirweddu
POLISI CYFF 5: Cadwraeth Dŵr
POLISI GWA2: Rheoli Gwastraff y Tu Allan i Ffiniau Datblygu a Safleoedd Dynodedig
POLISI TRA 1: Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant
POLISI TRA 4: Rheoli Ardrawiadau Cludiant
POLISI MWYN 4: Datblygiadau Mwynau
POLISI MWYN 6: Cylchfeydd Rhagod o amgylch Safleoedd Mwynau
POLISI MWYN 9: Pyllau Benthyg
POLISI MWYN 10: Adfer ac Ôl-ofal

**2.4 Polisïau Cenedlaethol**
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru
  Rhifyn 9, Tachwedd 2016,

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Llywodraeth Cymru,
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 61/96 - Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol, Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth,

- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) NCT 5:
 Cadwraeth Natur a Chynllunio, NCT 11: Sŵn, NCT 15:
 Datblygu a Pherygl Llifogydd, NCT 18: Trafnidiaeth, NCT 21: Gwastraff, NCT 23: Datblygiad Economaidd,

- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1, Llywodraeth Cymru:
 AGREGAU (Mawrth 2004),
- Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMS) 2012,
- Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru - adolygiad cyntaf (2009),
- Canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Adolygiad Datganiad Technegol Agregau Rhanbarthol
 Awst 2014.

**3 Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Rhoddodd Caniatâd Cynllunio Rhif 390 ganiatâd gydag amodau, ar 22 Tachwedd 1951, i barhau â'r gwaith yng Ngwaith Brics Peblig a Seiont Caernarfon - mae deunydd wedi cael ei gloddio o'r safle am oddeutu 100 mlynedd ac mae gwaith wedi mynd rhagddo ar y safle'n rheolaidd ers y cyfnod hwnnw.

3.2 C00A/0441/14/MW dyddiedig 10 Mai 2007 - Deddf Amgylchedd 1995, Penderfynu ar amodau a chynllun gweithio dan adolygiad cychwynol (ROMP) ar ganiatâd rhif 390 dyddiedig 22 Tach 1951.

3.3 C00A/0442/14/MW wedi'i ganiatáu gydag amodau ar 9 Mai 2007 - Parhau i ddefnyddio tir ar gyfer ailddefnyddio/gwasgaru gwastraff mwynau yr hen reilffordd.

3.4 C01A/0750/14/TC - Tystysgrif Defnydd neu Ddatblygiad Cyfreithiol dyddiedig 6 Chwefror 2002 ar gyfer defnydd cyfredol y safle hwn fel ardal pentyrru briciau.

3.5 C15/0977/19/LL wedi'i ganiatáu gydag amodau ar 28 Hydref 2015 ar gyfer newid defnydd y tir ar gyfer gosod tri adeilad dros dro, ardaloedd parcio, dau gynhwysydd storio ynghyd â ffensys diogelwch mewn perthynas ag adeiladu ffordd osgoi Caernarfon.

3.6 Daeth y gwaith yn y chwarel i ben yn 2008 gydag adeilad y gwaith briciau'n cael ei dymchwel yn 2010 a swyddfa'r safle yn 2013.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Tref Caernarfon: | Dim ymateb |
| Cyngor Cymuned Bontnewydd: | Dim gwrthwynebiad |
| Swyddog Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd: | Dim ymateb |
| Uned Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru: | Fel yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am Gefnffordd yr A487, mae Llywodraeth Cymru'n nodi na fydd yn cyhoeddi cyfarwyddyd mewn perthynas â'r cais hwn. |

Cyngor Cymuned Waunfawr:

Gwrthwynebu'r cais am y rhesymau a ganlyn:

- Codi pryderon mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar ddrafft cyntaf y cynigion oedd yn cynnwys llwybr cludo gogleddol parhaol at yr A4085, a oedd i'w ddileu yn dilyn trafodaethau ar yr ymarferiad ymgynhgori PAC. Darparu mynediad newydd parhaol i'r chwarel o'r A4085,
- Mae pryderon ynglŷn â hirhoedledd cyfleuster tirlenwi parhaol yn yr ardal a chyfaint y deunyddiau a nodir ym manylion y cais. Effeithiau amwynder sŵn, llwch a malurion ar y briffordd leol
- Amserlen o 10 mlynedd ar gyfer y gwaith sy'n atodol i anghenion gwaith adeiladu'r ffordd osgoi,
- Safle'n destun prosesau adfywiad naturiol
- Polisi cenedlaethol a lleol ar hierarchaeth gwastraff
- Cynigion amgen i'w hystyried ar gyfer y safle

Cefn Gwlad a Mynediad Gwynedd (HT):

Dim ymateb

Dŵr Cymru:

- Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r cais ond cafwyd sylwadau'n ymateb i'r ymgynghoriad ar y cais cysylltiedig, cyf. C17/0107/19/LL y'u hystyrid yn berthnasol.
- Mae cynnwys ymateb Dŵr Cymru i'r ymarferiad ymgynghori cyn gwneud cais wedi'i gydnabod yn y DA gan y buasent yn gwrthwynebu gwaredu dŵr wyneb yn y garthffos gyhoeddus.
- Fel yr ymgymerwr carthffosiaeth statudol, mae'n ddyletswydd arnom i gynnal asesiadau o'r gollyngiadau budr y'u rhagwelir o'r datblygiad arfaethedig, ynghyd â mesurau lliniaru er mwyn medru cysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, byddai'r datblygiad arfaethedig yn gorlwytho'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff. Nid oes unrhyw welliannau wedi'u cynllunio fel rhan o Raglen Fuddsoddi Cyfalaf Dŵr Cymru.
- Gan fod y cynnig yn bwriadu defnyddio 'tanc storio symudol uwchben y ddaear', nid yw Dŵr Cymru am gyflwyno sylwadau pellach; fodd bynnag, pe byddai'r amgylchiadau'n newid a bod cysylltu â'r system gyhoeddus/gwaith trin carthffosiaeth gyhoeddus yn cael ei ffafrio, y byddai'n rhaid ail-ymgynghori â Dŵr Cymru ynghylch y cais.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:

- Nid yw'r asesiad Treftadaeth Ddiwylliannol yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r archeolegydd rheoli datblygiad roi cyngor ar y cynigion. Ni chwblhawyd yr asesiad yn unol â'r gofynion proffesiynol na'r gofynion cynllunio ar gyfer gwaith o'r fath.
- Dylid cwblhau'r asesiad archeolegol yn unol â manyleb fydd yn cael ei chytuno ymlaen llaw â'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn rhannu gwybodaeth bellach parthed y penderfyniad cynllunio.

Scottish Power:

Dim ymateb

Arolygiaeth Chwareli:

Dim ymateb

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru: | Dim ymateb |
| CADW: | • Cytuno â'r asesiad treftadaeth ddiwylliannol na fyddai effaith y cynigion ar Barc Cofrestredig Graddfa II Y Morfa yn sylweddol.<br>• Gwaith arfaethedig o fewn 1.3km o Gastell Caernarfon a Muriau'r Dref ond ni fydd yn weledol nac yn cael effaith ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd. |
| Awdurdod Llifogydd Lleol: | Dim gwrthwynebiad ond yn cyflwyno'r cyngor a'r amodau a ganlyn:<br><br>Mae sawl cwrs dŵr yn rhedeg drwy'r safle neu gyferbyn ag ef. Argymell yr amodau a ganlyn ar unrhyw ganiatâd a roddir er budd mwynderau'r ardal a'r eiddo cyfagos:<br>• Bydd y datblygwr yn diogelu'r cwrs dŵr ac yn cyflwyno manylion darpariaeth o'r fath am gymeradwyaeth gan Gyngor Gwynedd yn unol ag Adran 23(1) Deddf Draenio Tir 1991,<br>• Bydd y gost o ddiogelu'r cwrs dŵr yn cael ei thalu gan y datblygwr<br>• Os yw'r ymgeisydd yn bwriadu gollwng dŵr wyneb i'r cyrsiau dŵr sy'n llifo drwy'r safle neu gerllaw, bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno manylion y cynigion i Gyfoeth Naturiol Cymru i'w cymeradwyo.<br><br>Bydd yr amodau uchod hefyd yn berthnasol os yw'r datblygwr yn bwriadu cylfatu'r cwrs dŵr yn unol ag Adran 263 Deddf Iechyd Cyhoeddus ac Adran 23(1) Deddf Draenio Tir 1991. |

| | |
| --- | --- |
| Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd: | • Mae'r DA yn cynnwys sawl adroddiad gan gynnwys Arolwg Cynefinoedd Cam 1, arolygon moch daear, dyfrgwn ac adaryddiaeth. Ymchwiliad i rywogaethau wedi'u gwarchod dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, adar sy'n nythu, ystlumod, llygod y dŵr, moch daear, dyfrgwn ac ymlusgiaid wedi'u cymryd o arolygon yn 2015 ar gyfer cynllun arfaethedig ffordd osgoi Caernarfon, sy'n cynnwys rhan o'r safle.<br>• Arolwg anifeiliaid di-asgwrn-cefn ac ymlusgiaid yn annigonol,<br>• Y safle'n anweithredol ers 2008 ac yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r chwarel wedi datblygu'n safle o werth bioamrywiaeth uchel, gan gynnwys sefydlu coed wedi'u plannu ac adfywiad naturiol. Bydd y cynnig yn arwain at golli nifer sylweddol o goed o ganlyniad i ailraddio wyneb y chwarel i wneud lle i'r llwybrau cludo<br>• Er na chynhaliwyd yr arolwg cynefinoedd yn ystod cyfnod mwyaf delfrydol y flwyddyn, gellir sefydlu bod amrediad eang o gynefinoedd yn y chwarel a bydd nifer ohonynt yn cael eu heffeithio gan y cynigion datblygu. Mae cynefinoedd yn cynnwys yr hyn a ganlyn, gan gynnwys y rhai pwysicaf yng Nghymru dan Adran 7 Deddf Amgylchedd 2016; glaswelltir niwtral, tryddiferiad gwlyb, glaswelltir wedi'i wella'n amaethyddol, prysgwydd, coetiroedd llydanddail, gwrychoedd, llyn, dŵr agored, ffosydd, afon, daear foel (concrid a chlai), malurion (briciau a choncrid) a chynefin mosaig agored o dir a ddatblygwyd o'r blaen<br>• Is-haen o glai, llain galed goncrid a sawl ffos a phyllau sy'n gartref i doreth o lystyfiant; hen ardal storio briciau yn ystum yr afon yn cynnwys cynefin Adran 7, glaswelltir dôl iseldir sydd angen ei ymchwilio ymhellach,<br><br>• Er nad yw Chwarel Seiont wedi'i ddynodi fel Safle Bywyd Gwyllt, mae'r Gwasanaeth Bioamrywiaeth wedi archwilio'r safle ac wedi nodi y byddai'n gymwys gan ei bod yn debygol o fod yn cynnal sawl rhywogaeth o bwysigrwydd cenedlaethol a lleol gan gynnwys: adar sy'n nythu, gwas y neidr a mursennod, ymlusgiaid, ystlumod, dyfrgwn ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn, yn benodol glöyn byw y Gwibiwr Llwyd sydd wedi'i restru dan Adran 7 fel rhywogaeth â blaenoriaeth bioamrywiaeth yn y DU,<br>• Cofnodwyd nyth gaeafgysgu'r ystlum pedol leiaf mewn adeilad adfeiliedig yn yr hen ardal storio briciau ond hefyd ystlumod brown clustiau hir, yr ystlum cyffredin lleiaf, yr ystlum lleiaf uchelsain, a'r ystlum mawr yng nghyffiniau'r safle. Yn y chwarel ceir cynefinoedd porthiant addas i ystlumod pedol lleiaf megis prysgwydd, glaswelltir a choetir. Gallai'r bwriad effeitho ar gynefin porthiant a thorri llwybrau hedfan<br>• Bydd y bwriad yn arwain at golli cynefinoedd o |

bwysigrwydd bioamrywiaeth cenedlaethol, gan gynnwys 9.4ha o gynefin mosaig agored, er y gallai cynefin o'r fath ymsefydlu o'r newydd os cai ddigon o amser unwaith y bydd y datblygiad wedi dod i ben. Yn ogystal, bydd y datblygiad yn golygu colli gwrych, glaswelltir niwtral a llyn

- Dylai'r gwaith adfer gynnwys cynigion ar gyfer uchafu bioamrywiaeth ar y safle, gan gynnwys,
  - Cynllun ar gyfer rheoli a gwaredu rhywogaethau ymledol
  - Dim ond ailhadu gyda glaswellt o ddolydd gwair lleol sy'n llawn o rywogaethau,
  - Gwella'r glwydfan bresennol i ystlumod
  - Creu mosaig o byllau bychan ar draws gwaelod gwagle'r chwarel
  - Creu ardal fwy o laswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau a nodweddion ar gyfer rhywogaethau, megis clwydfannau ystlumod, gwâl i ddyfrgwn, safleoedd gaeafgysgu i ymlusgiaid a digon o ardaloedd ar gyfer adar sy'n nythu.
  - Dim pori
  - Dim creu pwll gwanhau llifogydd yn yr ystum
  - Cynllun lliniaru ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig
  - Cynllun monitro ac ôl-ofal
  - Dim gwaredu uwchbridd
  - Adfer y safle yn barc natur

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau**

O dan Reoliadau Cynefinoedd 2010, dylid asesu cynlluniau a phrosiectau nad ydynt ar gyfer rheoli Safle Ewropeaidd am eu heffeithiau arwyddocaol ar unrhyw Safle Ewropeaidd.
Mae sawl Safle Ewropeaidd a all gael ei effeithio gan y bwriad hwn yn y Gwaith Briciau:

- ACA Afon Menai a Bae Conwy
- ACA Glynllifon
- ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn

**Crynodeb**

Mae'r bwriad i ddefnyddio'r safle fel safle ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd gan gynnwys compownd, swyddfeydd, storfa danwydd, tanc storio carthion, peiriannau concrid symudol, peiriannau asffalt symudol, a darparu llwybr cludo yn hen Waith Briciau Caernarfon, yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw safleoedd sydd wedi'u dynodi dan Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

Gwarchod y Cyhoedd:

- Mae'r cynnig yn wahanol i'r gweithgarwch a reoleiddwyd o'r blaen, sef gwaith cynhyrchu briciau, gan fod yr holl weithgarwch/gwaith ar y safle am gael ei wneud yn yr awyr agored, yn hytrach nag y tu mewn i furiau adeilad. Mae'r materion amgylcheddol allweddol sydd am dderbyn sylw yn cynnwys Draenio, Ansawdd yr Aer, Allyriadau Sŵn a thir a all fod wedi'i halogi.
- Yn sgil nifer y staff sy'n debygol o fod angen cyfleusterau lles, byddai Gwarchod y Cyhoedd yn ffafrio darpariaethau draenio dŵr aflan sydd wedi'u cysylltu â'r bif garthffos.
- Cynnydd posib mewn cloddio deunydd o'r chwarel ac mae'n bwysig nad yw llygryddion aer sy'n codi o'r gweithiau yn cael effaith andwyol ar iechyd y cyhoedd. Y prif bryder fyddai achosion o allyriadau yn ffoi i'r aer yn ystod y cyfnod adeiladu ac a ddaw yn sgil trafnidiaeth cerbydau trymion. Argymhellir paratoi a gweithredu cynllun rheoli llwch a gosod amodau priodol i reoli allyriadau deunydd gronynnol PM10 a PM2.5, yn ogystal â lefelau Nitrogen Deuocsid NO2.
- Amodau priodol i reoli allyriadau llwch ond hefyd gofyniad i gynnal arolwg llwch am o leiaf chwe mis mewn lleoliadau wedi'u cytuno. Dylid gwneud gwaith mathru, sgrinio, cludo a gweithrediadau eraill sy'n debygol o arwain at lwch sy'n cael ei gludo yn yr aer mewn adeilad priodol. Mae gwaith mathru a sgrinio angen caniatâd dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010,
- Dylid cyflwyno manylion y cyfleusterau golchi cerbydau i'w gosod, gan gynnwys y lleoliad, dyluniad, manyleb, a'r rheoliadau i'w defnyddio i sicrhau defnydd cywir yn ysgrifenedig er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo. Yna, bydd y cyfleusterau cymeradwy'n cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr gweithio llawn ac yn cael eu defnyddio gan bob cerbyd trwm fydd yn gadael y safle er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fwd, llwch, na deunydd niweidiol arall yn cael ei drosglwyddo i'r briffordd gyhoeddus wrth iddo adael y safle. Bydd pob cerbyd sy'n cludo mwynau o'r safle, sy'n llai na 100mm mewn unrhyw gyfeiriad, yn cael ei orchuddio'n ddiogel.
- Mae’r ymgeisydd wedi dyfynnu'r lefelau sŵn blaenorol ar gyfer y penderfyniad ROMP yn 2007 a osodwyd i eiddo unigol. Nid oes tystiolaeth atodol yn awgrymu fod y lefelau cefndirol cyfredol yr un fath â'r asesiad blaenorol a gynhaliwyd. Dylid diwygio’r Adroddiad Sŵn i gynnwys arolwg dangosol o'r sŵn cefndirol i gefnogi a chyfiawnhau'r defnydd o amodau sŵn. Os nad oes adroddiad swn ychwanegol yn bodoli, argymhellir gosod yr amodau a ganlyn ar unrhyw ganiatâd a roddir:-
- Yn ystod oriau gwaith arferol (0700-1900), ni ddylai'r lefel graddfa sŵn fod yn fwy na 55dB(A) LAeq, 1 awr (free field). Gyda'r nos (1900-2200), ni ddylai'r cyfyngiadau fod fwy na 10dB(A) yn fwy na'r lefel cefndirol ac ni ddylai'r cyfyngiadau yn ystod y nos fod yn fwy na 42dB(A) LAeq, 1 awr maes agored mewn anheddau sy'n sensitif i swn. (MTAN1). Gweithrediadau dros dro i fod ddim mwy na 70 dB LAeq, 1 awr (maes agored) hyd at 8 wythnos y flwyddyn.

- Noder: Defnyddir Safon Brydeinig BS.4142:2014 'Methods for rating and assessing industrial and commercial sound', i asesu ac arddangos cydymffurfiaeth â'r cyfyngiad sŵn ffiniol
- Rhaid i beiriannau penodol a'r dulliau rheoli neu liniaru sŵn cysylltiedig gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol cyn gosod a gweithredu'r peiriannau a'r cyfarpar, gan gynnwys lefelau pŵer sŵn penodol cyn eu defnyddio ar y safle.
- Mae potensial i sŵn gweithredol o draffig ar y ffyrdd effeithio ar eiddo sydd wedi'i leoli rhwng y chwarel a Phont Seiont. Dylid cyfyngu'r oriau gweithredu er mwyn osgoi symudiadau gormodol gan gerbydau trymion yn teithio i'r chwarel ac oddi yno, drwy ardaloedd preswyl yn ystod y nos. I leihau unrhyw effaith, gellir gosod amod ar y safle i sicrhau na fydd danfoniadau'n digwydd na deunyddiau wedi'u prosesu'n cael eu symud, ac eithrio yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a ganlyn:
  - rhwng 0700 a 1800 ddydd Llun i ddydd Gwener
  - rhwng 0700 a 1300 ddydd Sadwrn
  - a dim danfoniadau ar ddyddiau Sul nac ar Wyliau Cyhoeddus.
- Cofnodion ysgrifenedig o holl symudiadau cludiant i fod ar gael ar gais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau
- DA yn cynnwys asesiad o dir sydd o bosib wedi'i Halogi *'Adroddiad Cyflwr Safle ac Ymchwiliad ac Asesiad Risg Halogiad Daear*'. Felly, efallai bod pocedi o halogiad heb ei ganfod ledled y safle. Yn ystod y datblygiad, os canfyddir unrhyw halogiad nad oes cyfeiriad ato yn yr adroddiad, rhaid i'r datblygwr roi'r gorau i'r gwaith ar unwaith a hysbysu'r adran hon a'r Awdurdod Cynllunio lleol. Yn y sefyllfa hon, dylai Ymgynghorydd Amgylcheddol cymwys gynnal ymchwiliad pellach sy'n manylu ar sut y gellir ymdrin â'r halogiad hwn nas rhagwelwyd.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Mae CNC yn gofyn am osod amodau cynllunio penodol i fynd i'r afael â'u pryderon,
- Holl fanylion y tanc storio dŵr budr i'w cyflwyno cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle i ddangos y bydd y system arfaethedig yn diogelu'r amgylchedd cyfafos ac y bydd y system yn cael ei rheoli'n briodol. Gwaredu gwastraff budr oddi ar y safle yn unol ag Adran 34 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990,
- Bydd unrhyw seilwaith dros dro sy'n gysylltiedig â draenio dŵr budr ar y safle yn cael ei ddigomisiynu'n gyfan gwbl a'i dynnu o'r safle pan ddaw'r caniatâd i ben
- Bydd cynllun rheoli Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol yn destun amod cynllunio
- Gwybodaeth annigonol o'r arolwg ynghylch y modd y mae ystlumod yn defnyddio'r safle ar gyfer porthiant a chymudo o'u clwydfannau. Pryderon ynghylch effeithiau posib y datblygiad ar borthiant a llwybrau cymudo ystlumod ac y dylid cyflwyno cynllun goleuo i gael ei gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio mwynau. Yn ogystal, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig cyn cael gwared ag unrhyw lystyfiant aeddfed/nodweddion llinol a all fod yn cael eu defnyddio gan ystlumod
- Plannu coed er mwyn osgoi cyfeirio ystlumod tuag at y ffordd osgoi newydd neu greu ardal porthiant wrth ei ymyl. Cynnal a gwella'r glwydfan gaeafgysgu yn yr adfail yn yr hen ardal storio briciau. Newid y rhwyllenni metel i atal y cyhoedd rhag cael mynediad,
- Argymell bod y cynefinoedd sy'n cael eu creu yn cydweddu â phrosiectau a ganiatawyd yn flaenorol i ddarparu cyfleoedd porthi i nifer o rywogaethau gwarchodedig, gan gynnwys gwahanol ardaloedd o gynefinoedd sy'n ddibynnol ar ddŵr, pwll llinol bas a ffos bengaead yn swmp y chwarel
- Dyfroedd o dan y safle wedi'u rheoli ddim yn safleoedd amgylcheddol sensitif o'r radd flaenaf a chan dybio nad oes halogiad yn bresennol yn y lleoliad hwn, dylid dilyn gofynion PCC a'r Egwyddorion Arweiniol ar Halogiad Tir. Os canfyddir halogiad dwys, dylai'r ACM (Awdurdod Cynllunio Mwynau) ailymgynghori â CNC gan argymell y dylai'r datblygwr ddilyn eu fframwaith rheoli risg nhw, ynghyd â'u gweithdrefnau model, ac "Egwyddorion Arweiniol ar Halogiad Tir" ac "Egwyddorion ac Arferion ar gyfer Amddiffyn Dŵr Daear (GP3)"
- Amod cynllunio i nodi na chaiff unrhyw waith datblygu pellach (ac eithrio pan fo hyn wedi'i gytuno yn ysgrifenedig fel arall) ei wneud os, yn ystod y datblygiad, y canfyddir halogiad nad oedd wedi'i ganfod yn flaenorol, hyd nes y bydd strategaeth adfer yn cael ei chyflwyno i'r ACM er cymeradwyaeth,
- Argymhellir gosod cyfarpar rhyng-gipio olew i atal unrhyw lygredd i'r amgylchedd dŵr yn unol â'r canllawiau atal llygredd. Defnyddio a dylunio gwahanwyr olew mewn systemau draenio dŵr wyneb. Cysylltu â CNC i bennu p'un a yw'n ofynnol i'r cynnig gael caniatâd i ollwng i'r ddaear neu'r cwrs dwr

- Sicrhau nad yw corff dŵr daear Llŷn ac Eryri'n cael ei ddirywio ymhellach, dylid monitro a chynnal a chadw'r holl fesurau atal llygredd. Argymell pennu'r lefel dwr daear i sichrau fod modd rheoli'r technegau rheoli llygredd,
- Digon o ddarpariaeth i ddal dŵr ffo yn yr ardaloedd storio deunyddiau a gweithio gan gynnwys atal deunydd draenio sy'n llawn gwaddodion sy'n llifo o ffyrdd cludo rhag mynd i mewn i unrhyw gwrs dwr (GPP5 ar gyfer gwaith a gwaith cynnal a chadw mewn neu gerllaw cwrs dwr)
- Gweithdrefnau gwaredu priodol ar gyfer unrhyw asbestos a ganfyddir ar y safle,
- Y safle wedi'i leoli'n rhannol mewn C2 yn unol â Mapiau Cyngor Datblygu NCT 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd. Datgan CNC fod yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd a gyflwynwyd i gefnogi'r cais yn darparu amcangyfrif cywir o'r risg llifogydd posib sy'n dangos fod y rhan o'r safle y gellir ei ddatblygu (adeiladau'r safle a'r ardaloedd parcio ceir) am barhau heb lifogydd am ddigwyddiadau llifogydd amrywiol gan gynnwys y digwyddiad llifogydd eithafol (0.1% AEP neu ddigwyddiad 1 mewn 1000). Capasiti storio llifogydd wedi'i gynyddu yn y cyn ardal storio briciau ble y bydd deunydd yn cael ei dynnu. Ni fydd y datblygiad yn cynyddu llifogydd rywle arall a bydd ffordd gludo'r safle yn darparu dewis amgen, ond dros dro, o ddianc ar gyfer Ffordd Melin Seiont. Bydd unrhyw waith o fewn 8m o'r afon angen caniatâd gweithgarwch risg llifogydd pwrpasol.
- Dim perygl y bydd pysgod yn cael eu canfod yn ystod dihysbyddu swmp y chwarel,
- Bydd angen Trwydded Amgylcheddol ar gyfer gweithredoedd gwaredu dŵr o dan Reoliadau Caniatâd 2010. Gwastraff wedi'i reoli a dynnir neu a ddeuir ar y safle i'w gymryd i gyfleuster wedi'u awdurdodi'n briodol, gan gynnwys priddoedd wedi'u halogi. Bydd deunyddiau a gloddwyd sy'n cael eu hadfer trwy weithgaredd ymdrin yn medru cael eu hail-ddefnyddio ar y safle o dan Ddiffiniad Gwastraff CL:AIRE.
- Cytuno â chasgliad asesiad yr ACLl dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 o ran na fydd unrhyw risg arwyddocaol o effeithiau ar safleoedd wedi'u gwarchod (SPA/ACA/SoDdGA) yn sgil y cynigion datblygu,
- Angen caniatâd gollwng diwygiedig ar gyfer y safle gan gynnwys data monitro dŵr,
- Mae CNC yn ystyried ei bod yn anhebygol y bydd y cynigion yn arwain at ddirywiad yn amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr ar yr amod y glynir at y mesurau a nodir yn yr holl bynciau y cyfeirwyd atynt yn eu hymgynghoriad.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Ymddangosodd hysbysiadau yn y wasg leol a chafodd hysbysiadau eu harddangos yng nghyffiniau ardal y cais parthed dau gyfnod ymgynghori ar wahân gan ddechrau ar 8 a 22 Chwefror 2017. Roedd yr ail gyfnod ymgynghori yn rhoi ystyriaeth i wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd yn unol â Rheoliad 22 Rheoliadau EIA 2016. Derbyniwyd naw llythyr yn gwrthwynebu yn tynnu sylw at y pryderon a ganlyn;

Rhesymau dros Wrthwynebu:

- Ardal ddistaw a llonydd / mwynderau preswyl ac agosrwydd eiddo at y safle,
- Effeithiau ar fioamrywiaeth leol, ystlumod, dyfrgwn, adar yn nythu, tylluannod;
- Effeithiau traffig yn gysylltiedig â'r defnydd o gompownd yn atodol i'r gwaith o adeiladu'r ffordd osgoi,
- Effeithiau sŵn a dirgryniad yn gysylltiedig â'r gwaith,
- Pryderon am ansawdd aer/effeithiau ansawdd aer ac iechyd,
- Llwch,
- Lled a chapasiti strwythurol Ffordd Melin Seiont,
- Oriau gweithredu,
- Gweledd y fynedfa waith,
- Effeithiau cronnus ar y dirwedd, ac yn amgylcheddol a mwynderol gyda chynigion y ffordd osgoi
- Yn groes i'r polisi cynllunio a fabwysiadwyd i warchod yr amgylchedd,
- Sgrinio annigonnol ar gyfer eiddo i dde-ddwyrain y chwarel,
- Hirhoedledd cynigion datblygu a'r defnydd o'r safle am sawl blwyddyn y tu hwnt i oes y gwaith o adeiladu'r ffordd osgoi; seilwaith a'r adeiladau dros dro i aros ar y safle am o leiaf saith mlynedd; ansicrwydd yn sgil y cynigion ôl-ddefnydd hirdymor ar gyfer y safle,
- Effaith ar fwynderau a'r amgylchedd yn gorbwyso'r buddion o weithio'r chwarel,
- Bydd y cynigion datblygu a'r estyniad arfaethedig i'r safle yn effeithio ar fioamrywiaeth leol; mesurau lliniaru yng nghynigion y cais yn annigonnol i hyrwyddo bioamrywiaeth i fodloni gofynion amcanion Llywodraeth Cymru,
- Yn groes i bolisi cynllunio a fabwysiadwyd mewn perthynas ag asedau treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys yr effaith bosib ar adeiladau rhestredig wedi'u lleoli yn uniongyrchol ger gwaith y ffordd osgoi a mynedfeydd i'r chwarel, yn enwedig lleoliad Bryn Eglwys 235m i ffwrdd a'r effaith ar y golygfeydd o'r eiddo hwn
- Effaith bosib ar asedau treftadaeth ddiwylliannol yr ardal leol ond hefyd ar Eglwys Llanbeblig (Rhestredig Gradd I) a Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon (Rhestredig Gradd I),
- Ni fydd cynigion datblygu a'r estyniad arfaethedig yn gwella'r amgylchedd naturiol nac yn cyfrannu'n gadarnhaol at dirwedd neu asedau treftadaeth adeiledig yr ardal,
- Effeithiau symudiadau cludo sy'n gysylltiedig â mewnforio ac allforio hyd at 400,000m3 o ddeunyddiau,
- Effeithiau cronnus ar ansefydlogrwydd y tir yn sgil cynigion y ffordd osgoi,

- Cynigion adfer yn unol â'r penderfyniad ROMP heb eu gweithredu,
- Effeithiau posib ar lifogydd,
- Dim cynigion sgrinio ar gyfer y llwybr cludo i'r gogledd.
- Effeithiau ar hawliau tramwy.

Yn ychwanegol i'r uchod, ni ystyriwyd fod y sylwadau a ganlyn yn ystyriaethau cynllunio dilys:

- Gwrthwynebiadau i roi'r cynigion ffordd osgoi ar waith a'r effaith ar werth eiddo a chyfleoedd i osod tai at ddibenion gwyliau
- Iawndal yn gysylltiedig â'r gwaith ar y ffordd osgoi,
- Effeithiau traffig mewn perthynas â sŵn ac aflonyddwch unwaith y bydd y ffordd osgoi yn weithredol,
- Effeithiau ar y cwrs dŵr sy'n rhedeg ar hyd ffin de-ddwyrain y chwarel.
- Golygfeydd o'r safle o Gastell Caernarfon,
- Cynigion datblygu, 'goredrych',
- Mynediad parhaol i'r A4085,
- Polisi Cynllunio CDU wedi'i fabwysiadu ar Safleoedd Mwynau Segur,
- Hawliau Dynol,
- Ail-leoli'r ffordd gludo o fewn y chwarel gan gynnwys y ddau fynediad
- Addasrwydd deunyddiau clai ar gyfer adeiladu'r ffordd osgoi.

**Asesu'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**5. Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae gofyn cymryd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu mabwysiedig, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn awgrymu'n wahanol. Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2001-2016) yw'r 'Cynllun Datblygu' presennol ond bydd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn' yn ei ddisodli fel y 'cynllun datblygu' unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu. Gobeithir y bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu fis Gorffennaf 2017.

5.2 Wrth ystyried unrhyw gais cynllunio, y prawf statudol ddylai fod yr ystyriaeth gyntaf bob amser h.y. bod yn rhaid ystyried ceisiadau cynllunio yn unol â'r cyflun datblygu oni bai fod ystyriaethau perthnasol eraill yn awgrymu'n wahanol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd erbyn hyn yn ystyriaeth berthnasol at ddibenion rheoli datblygu - gweler paragraff 3.1.3 o Bolisi Cynllunio Cymru sy'n datgan: *"Gallai ystyriaethau perthnasol gynnwys yr amgylchiadau presennol, polisïau mewn cynllun datblygu sydd wrthi'n cael ei baratoi a pholisïau cynllunio Llywodraeth Cymru Dylai pob cais gael ei ystyried mewn perthynas â pholisïau cyfredol..."*

5.3 Er y cafodd llawer o bolisïau eu trafod yn fanwl yng Ngwrandawiadau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, ni fyddwn yn gwybod i sicrwydd beth fydd cynnwys y Cynllun nes bod yr Arolygydd yn cyflwyno ei adroddiad terfynol.

5.4 Mae paragraff 2.14.1 o Bolisi Cynllunio Cymru'n datgan "*wrth ystyried faint o bwys i'w roi i*

*bolisïau penodol mewn Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill sy'n berthnasol i gais penodol, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn ofalus y dystiolaeth waelodol a chefndir y polisïau. Gallai polisi cynllunio cenedlaethol hefyd fod yn ystyriaeth berthnasol o dan yr amgylchiadau hyn".*

5.5 Mae'r cais ei hunan yn cynnwys sawl elfen, crynhoir yr egwyddorion cyfun isod, ond byrdwn y datblygiad yw y gellir ei ystyried yn atodol i ofynion prosiect cenedlaethol i wella ffordd. Byddai cael safle gyda mynediad uniongyrchol at y cynllun ffordd yn lliniaru effeithiau posibl loriau trymion ar seilwaith y ffyrdd lleol. Byddai'r safle'n cael ei defnyddio ar gyfer gwaith atodol i'r cynllun ffordd gan gynnwys swyddfeydd safle, gwaith asphalt a choncrid, adnoddau trin defnyddiau a gallai hefyd fod o gymorth i'r gwaith peirianneg sifil drwy waredu deunyddiau na ellir eu hadfer ac fel ffynhonnell o ddeunydd llenwi ar ôl ail ddechrau ar y gwaith cloddio.

5.6 Mae gan y chwarel eisoes ganiatâd cynllunio dilys ar gyfer cloddio a thrin mwynau sef, nes cau'r chwarel yn 2008, cloddio a phrosesu clai ar gyfer gwneud brics. Cafodd cais ar gyfer penderfynu ar amodau o dan Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau, Deddf yr Amgylchedd 1995, ei ganiatáu yn 2007 ac mae'n ddilys tan 2042. Mae gofyn i bob cais sy'n cael ei gyflwyno gyda Datganiad Amgylcheddol ystyried dulliau eraill er mwyn gallu asesu effeithiau'r cynigion yn llawn. Ar gyfer cynlluniau ffordd, mae cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 36/87 yn berthnasol lle mae gofyn nodi safleoedd ar gyfer cael defnyddiau addas' o fewn cylch o 10 milltir ac, os felly, ar ba sail y maen nhw wedi'u gwrthod neu eu hystyried yn anaddas.

5.7 Fodd bynnag, o gofio yr ystyrir fod chwarel Seiont yn dal i gael ei gweithio, ni ellir herio egwyddor cloddio am fwynau a gellir ail gychwyn y gwaith o dan delerau penderfyniad y Cais Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau C00M/0441/14/MW unrhyw adeg a heb rybudd ymlaen llaw. Er bod y safle mewn lle delfrydol fel ffynhonnell deunydd llenwi a / neu agregau ar gyfer y cynllun ffordd osgoi, gallai'r safle gyflenwi deunyddiau ar gyfer defnyddwyr eraill cyn belled â bod digon o ddeunydd ar gael. Mae hyn yn wir hefyd am weithio ar y deunydd a oedd yn cael ei gadw ar y lloriau concrid a'r pentyrrau o frics sy'n cael eu cadw i'w cario oddi ar y safle i'w gwerthu, gellid eu prosesu ymhellach ar gyfer agregau. Gallai'r safle felly weithredu fel pwll cloddio yn unol ag egwyddorion cyffredinol Polisi C19 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Pholisi MWYN 9 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gweill.

5.8 Mae gofynion Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, a hefyd amcanion y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, yn amlinellu'r angen i ddatblygu rhwydwaith cynaliadwy o adnoddau trin gwastraff, gyda phwyslais penodol ar yr angen i ddarparu adnoddau i ail ddefnyddio ac ailgylchu gwastraff.

5.9 Mae paragraff 3.27 o Nodyn Cyngor Technegol 21 yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer lleoliadau adnodau newydd i drin gwastraff yng nghyd-destun 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' a Chynllun Sector CIM. Mae'r paragraff yn cynnwys meini prawf ar gyfer lleoliadau e.e. ffermydd a safleoedd lle bu gwastraff yn cael ei drin ond hefyd, defnyddio gwastraff anadweithiol adeiladu a dymchwel ar gyfer adfer chwareli. Mae paragraff 13.2 yn datgan ymhellach '*yn achos gwaith tirlenwi a chodi lefelau tir, mae gofyn bod yn ofalus wrth adfer a darparu ôl-ofal ar safleoedd i'w paratoi ar gyfer defnydd sy'n gydnaws a'r ardaloedd o'u cwmpas a hefyd â darpariaethau'r cynllun datblygu lleol*.

5.10 Mae Nodyn Cyngor Technegol 21 yn cydnabod y bydd yn debyg y bydd llai o ofyn am safleoedd tirlenwi newydd wrth i weithgareddau newydd i rwystro, ailgylchu ac adfer

gwastraff ddatblygu yn unol â thargedau a gwaith polisi gwastraff. Mae paragraff 4.23 yn arbennig o berthnasol yma; mae'n datgan "*Drwy ddefnyddio hierarchaeth gwastraff gellir dangos nad yw cael gwared ar wastraff anadweithiol yn dderbyniol o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau ac felly, heb gyfiawnhad eithriadol, dylid gwrthod ceisiadau cynllunio ar gyfer gwaredu gwastraff anadweithiol. Gellir dangos amgylchiadau eithriadol pan fydd angen defnyddio gwastraff anadweithiol i i dalu sylw i ansefydlogrwydd, tirlunio, perygl llifogydd, materion ynghylch diogelwch neu i ar gyfer defnydd addas (er enghraifft, diwydiant, amaethyddiaeth). Ym mhob achos, dim ond y lleiaf posibl o wastraff anadweithiol ddylid ei ddefnyddio i gael y canlyniad a ddeisyfir".* Mae Nodyn Cyngor Technegol 21 yn ei gwneud yn glir nad yw gwaredu gwastraff adeiladu a dymchwel ar dir yn debyg o gael ei ystyried oni bai ei fod yn 'adferiad' er mwyn llwyddo i gael gwell ôl-ddefnydd ac y dylid gwrthod gwaredu ohono ei hunan.

5.11 Y sefyllfa ar hyn o bryd yw y dylid adfer y safle yn unol â'r cynlluniau oedd ynghlwm wrth y cais Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau er, yn amlwg bydd dangos llwybr y ffordd osgoi'n rhedeg ar hyn wyneb cefn y chwarel yn taflu amheuaeth ar y cysyniad a gafodd ei gymeradwyo ar gyfer adfer yn yr Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau o gofio y bydd y mwynau sy'n weddill yn cael eu cloi ac na fydd deunydd ar gael ar gyfer adfer. Er mwyn gallu ystyried fel 'adfer' a symud datblygiad i fyny hierarchaeth gwastraff, byddai angen i gais ddangos ei fod yn bodloni'r prawf o ddiben hollbwysig ac y gallai cario mwy o ddefnydd, y tu hwnt i swm rhesymol wrth gefn, fod yn gwaredu gwastraff ohono'i hunan.

5.12 Dylid, felly, ystyried Erthygl 3(15) y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff 2008/98EC o ran adfer deunydd anaddas sy'n cael ei gynhyrchu fel sgil gynnyrch y gwaith ar y ffordd osgoi er mwyn gallu cael ffurf well ar y tir ar ôl adfer. Prif nodwedd gwaith adfer yw mai ei brif amcan yw bod gwastraff yn ddefnyddiol wrth gymryd lle deunyddiau eraill y byddai'n rhaid eu defnyddio ar gyfer y diben hwnnw, ac felly arbed adnoddau naturiol. O ran gwaredu, mae Erthygl 12 yn datgan, pan nad yw gwastraff yn cael ei adfer, y dylid ei waredu'n ofalus yn unol â darpariaethau Erthygl 13 ar amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd. Yn ogystal â phroblemau tirlunio, bydd y cais yn talu sylw i'r problemau sefydlogrwydd tir sy'n amlwg yn yr haenau clai a rhewlif a'r posibilrwydd y gallai tir lithro, er nad yw'r safle ei hunan wedi'i chynnwys ar gofrestr yr awdurdod o dir ansefydlog. Mae paragraff 13.9.2 o Bolisi Cynllunio Cymru'n datgan; "*lle y gall mesurau derbyniol oresgyn ansefydlogrwydd, gellir rhoi caniatâd cynllunio gydag amodau'n nodi'r mesurau sydd eu hangen*".

5.13 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n datgan ymhellach "*pan roddir caniatâd cynllunio, dylid cyflwyno rhybudd i hysbysu'r ymgeisydd mai'r datblygwr a / neu berchennog y tir sy'n gyfrifol, ac sydd o ganlyniad, atebol am ddatblygu a meddiannu'r safle'n ddiogel*." Dylai 'nodyn i'r ymgeisydd hefyd "*hysbysu'r ymgeisydd, er bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi ymdrechu hyd eithaf ei allu i benderfynu ar y cais ar sail yr wybodaeth oedd ar gael iddo, nad yw hynny'n golygu bod y tir yn gwbl sad*'.

5.14 Mae'r cais hwn yn dangos bwriad sy'n golygu cario priddoedd a gweddillion gwastraff anadweithiol i newid proffil wynebau'r chwarel ac i lenwi tyllau chwarel sydd o dan ddŵr. Wrth ymateb i ymgynghori, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru bod yr ymgeisydd eisoes wedi cael cyngor cyn ymgeisio, a oedd yn cadarnhau y byddai gwaith gwaredu gwastraff hefyd angen hawlen o dan reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010.

5.15 Bydd egwyddorion cyffredinol polisi C24 o'r Cynllun Datblygu Unedol (tirlenwi a thirgodi) a GWA 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill yn berthnasol wrth ystyried datblygiad sy'n cydymffurfio â nifer o feini prawf ynghylch angen, lleoliad, graddfa, gallai reoli'r safle, ôl-ddefnydd derbyniol, mesurau lliniaru, effeithiau traffig a sicrwydd na fydd y datblygiad yn

niweidio diddordebau cadwraeth. Ystyrir fod Polisi C3 o’r Cynllun Datblygu Unedol a pholisi CYF 2 o'r Cynllun Datblygu Unedol sydd ar y gweill yn berthnasol (*caniateir ceisiadau sy’n rhoi blaenoriaeth i dir neu adeiladau sydd wedi’u datblygu o’r blaen ac sydd o fewn neu gerllaw ffiniau datblygu os yw'r safle neu'r adeilad a’u defnydd yn briodol*) o gofio mai cais yw hwn i newid lefelau'r cysyniad adfer mewn chwarel sydd wedi cau ers 2008. Hefyd, mae paragraff 4.9 o Bolisi Cynllunio Cymru ‘*ffafrio ailddefnyddio tir’* yn datgan ‘mae’n bosibl y gallai llawer o safleoedd a ddatblygwyd p'r blaen mewn ardaloedd adeiledig fod yn rhai addas i'w datblygu am y bydd eu hailddefnyddio yn hyrwyddo amcanion cynaliadwyedd. Bydd yr un ystyriaethau polisi o roi blaenoriaeth i dir a ddatblygwyd o'r blaen hefyd yn berthnasol i sefydlu iard dros dro ar lain galed yr hen waith brics.

5.16 Er mai tirlenwi sy’n cael y flaenoriaeth isaf wrth reoli gwastraff, mae safleoedd sydd â digon o le i dderbyn cymaint o ddeunydd anaddas y bydd y cynllun ffordd osgoi yn ei gynhyrchu yn brin. Y sefyllfa ar hyn o bryd yw mai Coetir y Faenol yw’r unig safle sydd ar agor ac a fyddai’n gallu derbyn gwastraff anadweithiol. Mae ganddi ganiatâd cynllunio a Thrwydded Amgylcheddol gyfredol. Ond mae lle gwag hefyd yng Nghilgwyn ac yn Ffridd Rasus, Harlech, yn codi o’u caniatâd cynllunio cyfredol. Er hynny, nid yw hyn ond yn amlygu'r ffaith mai dim ond ychydig o safleoedd sydd ar gael a allai ddygymod â’r cynllun ffordd osgoi o ran eu gallu i dirlenwi. Byddai defnyddio chwarel Seiont yn diogelu’r lle gwag sydd eisoes â chaniatâd ar gyfer gofynion adeiladwyr lleol a byddai hefyd yn lliniaru drwg effeithiau amgylcheddol loriau trymion ar y pentrefi cyfagos ac ar seilwaith ffyrdd yr ardal yn ogystal â darparu ‘egwyddor agosatrwydd’ ar gyfer anghenion y prosiect.

5.17 Nid yw’r cais felly yn darparu seilwaith rheoli gwastraff ychwanegol, hir dymor, ar gyfer gwaredu gwastraff anadweithiol ond, yn hytrach, yn defnyddio datblygiad sydd yn ategol i ofynion y cynllun ffordd osgoi a ddylai gael ei orffen yn gymharol fuan. Yn anorfod, byddai cael rhagor o ddeunydd yn golygu y gellid tirlunio'r chwarel a sicrhau bod lefelau a phroffil y chwarel ar ôl ei hadfer yn addas ar gyfer sefydlu coetir cymysg a glaswelltir hawdd ei gynnal yn ogystal â sefydlogi’r tir. Ystyrir na fyddai effeithiau byr dymor ail ffurfio wynebau'r chwarel a llenwi'r twll sydd o dan ddŵr yn amharu mwy ar fwynderau lleol, gweledol a thirwedd na phan oedd y chwarel y gweithio. Yn y tymor hir, mae yna fanteision amlwg o ran adfer y safle a gwella bioamrywiaeth.

5.18 Fel y nodwyd eisoes, bydd llwybr y ffordd osgoi ar wyneb cefn y chwarel yn golygu na ellir cloddio'r deunydd sy'n weddill, heblaw am ddefnyddiau a fydd yn cael eu cloddi wrth adeiladu'r ffordd. Fodd bynnag, un o’r ystyriaethau a grybwyllwyd wrth ymgynghori â’r ymgeisydd yw hirhoedledd y gwaith o waredu defnyddiau. Mae’r gwaith hwn yn cynnig y dylid cloddio a chario oddi ar y safle 400,000m3 o ddeunydd er mwyn cyrraedd y lefelau adfer sydd yng nghynlluniau'r cais.

5.19 Roedd trafodaethau pellach gyda’r ymgeisydd yn cadarnhau fod natur gwaith peirianneg sifil yn golygu na ellir bod yn sicr faint o ddeunydd a gynhyrchir, na’i ansawdd, ac y gallai’r tywydd achosi oedi mawr. Un o’r ystyriaethau a drafodwyd gyda’r ymgeisydd oedd am ba mor hir y byddai’r gwaith o waredu defnyddiau’n parhau. Sonnir yn y cais y byddai 400,000m3 o ddeunydd yn cael ei gloddio a’i waredu er mwyn cael y lefelau adfer sy’n cael eu dangos ar y cynlluniau gyda’r cais.

5.20 Mae llythyr oddi wrth yr ymgeisydd yn cadarnhau fod y cais cynllunio a’r wybodaeth gysylltiedig yn cynnwys cysylltiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol gyda’r prosiect ffordd osgoi, sy'n awgrymu y gellid gosod amodau ar y datblygiad i sicrhau y gellir cael digon o reolaeth dros y ddau gais pan fydd y defnydd yn benodol i'r prosiect adeiladu ffordd osgoi yn unig. Ymhellach, os na fydd y prosiect ffordd osgoi yn symud ymlaen, ni fydd angen y ddau

gais datblygu ar gyfer Seiont a bydd y chwarel presennol yn aros o dan delerau'r caniatâd mwynau presennol. Ystyrir felly y dylai unrhyw ganiatâd cynllunio a gytunir fod yn amodol ar y gofynion canlynol:

- Cyfyngu ar hyd y caniatâd i 5 mlynedd o pan hysbysir y dechreuir ar y gwaith o gario defnyddiau i adfer y chwarel a bod hynny'n cael ei gyfyngu i ofynion cynllun y ffordd osgoi yn unig a bod y gwaith o dirlenwi yn cael ei gyfyngu i 3 blynedd.
- Mai dim ond ar lwybrau cludo dynodedig sy'n cael eu nodi ar gynlluniau'r cais y gellir symud defnyddiau i mewn ac allan,
- Rhaid cyflwyno arolwg topograffeg i'w gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio mwynau ar ôl gorffen y gwaith gyda manylion archwiliad llawn o'r defnyddiau sydd ar gael ar gyfer adfer. Os na fydd digon o ddeunyddiau ar gael o waith adeiladu'r ffordd osgoi i gwblhau adfer o'r safle yn unol â chynlluniau'r cais, dylid cyflwyno cynllun adfer diwygiedig i'w gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio mwynau.

5.21 Yn ogystal i'r uchod, mae'r awdurdod wedi ail ymgynghori ar y cynigion diwygiedig nad ydynt yn cynnwys llwybr cludiant gogleddol parhaol. Er hynny, ystyrir bod digon o ddefnyddiau yn y chwarel at ddibenion prosiect y ffordd osgoi ac felly, cynigir yr amod canlynol;

- Cynllun diwygiedig i adfer llwybr cludiant gogleddol ar gyfer defnydd amaethyddol yn unol â'r canllawiau yn Anecs B – D o Nodyn Cyngor Technegol 1 (Agregau), gan nodi faint o ddeunyddiau ar gyfer adfer a fydd yn cael eu cadw ac ymhle h.y. dim defnyddiau a fydd wedi'u cloddio i ffurfio'r llwybr cludo i'w symud oddi ar y safle.

5.22 Yn y 9 mlynedd ers pan gafodd mwynau eu cloddio ddiwethaf ar y safle hwn, mae yna dystiolaeth glir o adfer llwyddiannus trwy' adfywiad naturiol ac mewn perthynas â'r egwyddor neu gyfiawnhad dros y datblygiad, mae'n anodd cydbwyso, ar y naill law, rhwng y lleiaf posibl o ddefnyddiau gofynnol sydd eu hangen ar gyfer adfer yn unol â'r Canllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol ac, ar y llaw arall, gyfle i ddarparu'r cydsyniad o adfer hen chwarel a fydd hefyd yn diwallu anghenion prosiect seilwaith cenedlaethol.

5.23 Yn amodol ar osod yr amodau cynllunio i adlewyrchu'r rhestr pwyntiau bwled uchod ac i ar gyfer yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill gan gynnwys Effeithiau Traffig, Cadwraeth Natur, Mwynderau, Cynaliadwyedd, Rheoli Llygredd a Llifogydd, ystyrir fod y datblygiad yn cydymffurfio mewn egwyddor â Pholisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol yn ogystal ag â gofynion Polisïau A1, A3, C3, C9, C14, C15, C19, C22 & C24 y Cynllun Datblygu Lleol a Pholisïau; CYF 2, PCYFF 1, TRA 1, GWA 2, MWYN 4, MWYN 9 & MWYN 10 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gweill.

**Sŵn, Llwch a Mwynderau Trigiannol**

5.24 O ran gwaith cloddio a thrin clai a deunydd ar yr wyneb, mae'n rhaid nodi fod Chwarel Seiont a'r gwaith brics cysylltiedig wedi cau ac yn cael ei gwarchod ers 2008. Mae'r safle ger derbynyddion sensitif yn Ffordd Felin Seiont, Ysbyty Eryri, parc cyhoeddus Pont Seiont, Comin y Morfa, ystâd dai Parc Hendre yn ogystal â nifer o gartrefi ar wasgar i'r dwyrain o'r chwarel ac i'r gogledd o'r llwybr cludiant a gwaith y ffordd osgoi arfaethedig. Mae yna eiddo yn Ffordd Felin Seiont sydd o fewn y byffer 100m sydd i'r gwaith clai fel sydd yn cael ei gynnwys o dan bolisi B12 o'r Cynllun Datblygu Unedol a Pholisi Mwyn 6 o'r Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill. Fodd bynnag, y sefyllfa yw bod y byffer 100m eisoes yn berthnasol i ddatblygu sydd wedi'i ganiatáu o dan delerau''r caniatâd presennol o dan Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau a dim ond ychydig, os cafwyd rhai o gwbl, o gwynion a gafwyd cyn cau'r chwarel a'r gwaith brics yn 2008.

5.25 Mewn ymateb i ymgynghori, mynegodd gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd y gallai fod yna bryderon ynghylch effeithiau sŵn, llwch ac aflonyddwch yn codi o’r gwaith ar y safle a symudiadau traffig pe byddai’r safle’n cael ei defnyddio fel iard i gontractwyr a hefyd yr effeithiau cynyddol yn codi o waith adeiladu ffordd osgoi. Mae’r cynnig yn wahanol i’r gwaith rheoledig o’r blaen o gynhyrchu brics. Roedd hynny’n cael ei wneud mewn adeilad, byddai’r gwaith hwn ar safle yn yr awyr agored. Mae’r materion amgylcheddol allweddol sydd angen sylw yn cynnwys Draenio, Ansawdd Aer, Gollyngiadau Sŵn a Thir Halogedig Posibl.

5.26 Mae’r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys rhestr o weithgareddau sy’n rhan o’r datblygiad a allai effeithio ar ansawdd aer a sŵn gan gynnwys ffurfio'r llwybrau cludo, cloddio / tynnu clai brics a'r tir wyneb yn ogystal ag adfer a phrosesu brics, concrid a defnyddiau eraill a ddaw i'r safle, gwaith cynyddol o daenu defnyddiau wrth adfer, paratoi concrid a defnyddio peiriannau a cherbydau disel. Mae’r Datganiad Amgylcheddol a gafodd ei baratoi ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer y prosiect ffordd osgoi yn nodi y bydd y cynllun angen 15,000m3 o goncrid a 77,820 tunnell o ddeunydd wynebu. Felly, gellid cael cynnydd mewn llygryddion aer ac mewn effeithiau sŵn o ganlyniad i ail gychwyn gweithio ar y safle ac mae’n bwysig nad yw gweithgareddau fel hyn amharu ar iechyd y cyhoedd. Yn ogystal â symudiadau traffig cludo’n gysylltiedig â gwaith y ffordd osgoi, mae effeithiau traffig yn gysylltiedig â'r cynnig yn cynnwys effeithiau cerbydau preifat a cherbydau danfon bychain yn defnyddio'r fynedfa bresennol i'r chwarel yn Ffordd Felin Seiont gydol cyfnod y prosiect (tua 25 symudiad yn y bore a’r gyda’r nos), ond hefyd gan ychydig o loriau trymion o bob math yn ystod y cyfnod 3 mis o baratoi a chlirio’n gysylltiedig â'r gwaith.

5.27 O gofio fod yr hen iard brics ar ystum yr afon, ystyrir y gallai’r gwaith a fyddai ei angen ar gyfer gwaredu’r pentyrrau o frics ac echdynnu deunydd i ffurfio basn bas a chynefin corff dŵr bas, parhaol, effeithio ar fwynderau trigiannol Ffordd Felin Seiont trwy effeithiau sŵn, llwch a thirgryniad. Fodd bynnag, ystyrir mai ychydig o waith fyddai’n cael ei wneud yn y rhan yma o’r chwarel ac y gellid ei orffen yn eithaf buan.

5.28 Mae’r Datganiad Amgylcheddol yn crybwyll Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol y DU drwy gyfeirio na ddylai lefelau PM10 fod yn uwch na 50µg/m-3 fel cymetrig dyddiol ac nad ddylai fod yna fwy na 35 o achosion o fynd y tu hwnt i hynny y flwyddyn, neu 40µg/m-3 yn cael ei fesur fel cymetrig blynyddol. Wrth ymateb i ymgynghori, argymhellodd Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd baratoi a defnyddio cynllun rheoli llwch gydag amodau priodol o reoli allyriadau PM10 a PM2.5 a hefyd lefelau Deuocsid Nitrogen NO2. Mae manylion y cais yn cadarnhau rhestr o fesurau i liniaru effeithiau posibl llwch yn dianc yn effeithio ar dderbynyddion sensitif gan gynnwys peidio â gollwng defnyddiau o uchder o gloddwyr, cyfyngderau cyflymder ar safle, defnyddio chwistrellwr dŵr ar lwybrau cludo, dyfrio mannau prosesu a defnyddiau a broseswyd a chadw log o gwynion ynghylch llwch.

5.29 Fodd bynnag, mae’n rhaid dal i ddiogelu rhag llwch drwy osod amodau safonol ac mae'r ymgeisydd yn cadarnhau ei fod yn fodlon trafod gosod amodau cynllunio priodol. Ymhellach, mae’r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn gofyn am gynnal arolwg llwch am o leiaf 6 mis mewn mannau i'w cytuno ac y dylid cadw gwaith malu, didoli a chario deunyddiau, a allai godi llwch, o dan do. Mae’n rhaid cael trwydded ar gyfer gwaith malu a didoli o dan Reoliadau Trwyddedau Amgylcheddol 2010 a hefyd mae’n rhaid sicrhau nad yw loriau trymion yn gadael y safle yn cario mwd, llwch na defnyddiau niweidiol ar briffordd gyhoeddus. Rhaid cael gorchudd cadarn dros pob cerbyd sy'n cludo mwynau llai na 100mm mewn unrhyw dimensiwn o'r safle.

5.30 Nid oedd asesiad sŵn cefndir gyda'r cais ond mae'r Datganiad Amgylcheddol yn dangos y lefelau sŵn blaenorol a ddefnyddiwyd ar gyfer Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau 2007 ar gyfer eiddo unigol. Er bod y gwaith brics wedi bod yn gweithio am flynyddoedd lawer heb yr un gŵyn am sŵn, dylid ail asesu natur y gwaith yn yr awyr agored gan nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y lefelau cefndir presennol yr un fath â phan wnaed yr asesiad blaenorol.

5.31 Mae datganiad y cais yn cadarnhau fod cloddio am fwynau'n cynhyrchu sŵn oherwydd y peiriannau trwm sy'n cael eu defnyddio, er y bydd lleoliad powlen y chwarel a ffurf y meinciau islaw'r lefel bresennol yn cuddio'r gwaith echdynnu rhag y rhan fwyaf, os nad y cyfan o'r eiddo trigiannol. Mae'r cais yn cydnabod fodd bynnag, y gallai pob gweithgaredd ar y safle effeithio ar dderbynyddion sensitif sŵn a chynigir fod gweithgareddau, gan gynnwys didoli, malu a phrosesu defnyddiau, yn cael eu cynnal mewn mannau lle byddai ffurf y tir ar hyn o bryd ac yn ystod y gwaith, fwyaf tebygol o guddio sŵn h.y. prosesu defnyddiau y tu ôl i'r domen o rwbel ar ochr ogledd-orllewinol y chwarel a chodi clawdd newydd i leihau sŵn ar derfyn de-orllewin safle'r hen waith brics ble y bydd concrid ac asffalt yn cael ei baratoi a cherbydau'n cael eu cynnal a'u trwsio.

5.32 Yn ogystal â chynnwys lliniaru sŵn yn y dyluniad safle, mae'r cais yn cynnig nifer o ymarferion rheoli da gan gynnwys; cadw ffyrdd cludo mewn cyflwr da i leihau sŵn a dirgryniadau o gerbydau, defnyddio larymau bacio ymarferol a diogel (e.e. sŵn gwyn), lleihau uchder gollwng, peidio â gor-gyflymu peiriannau, cynnal yr holl gerbydau a pheiriannau mewn cyflwr da gyda thawelyddion a gosod gorchuddion acwstig effeithiol a defnyddio pympiau a generaduron trydan ble bo angen.

5.33 Argymhellodd y gwasanaeth gwarchod y cyhoedd y dylid defnyddio'r canllawiau ar gyfer sŵn sydd yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 (Agregau) gan awgrymu, yn absenoldeb arolwg dangosol o sŵn i gyfiawnhau cyfyngiadau Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau 2007, y dylid gosod yr amodau canlynol ar ganiatâd y cais:-

- Yn ystod oriau gwaith arferol (0700 – 1900) ni ddylai lefel y sŵn fod yn fwy na 55dB(A) LAeq,1awr (amodau clir). Ni ddylai cyfyngiadau gyda'r nos (1900 – 2200) fod y tu hwnt i lefel gefndir o fwy na 10dB(A),
- Ni ddylai cyfyngiadau adeg y nos fynd y tu hwnt i 42 dB (A) LAeq, 1awr amodau clir ar eiddo sensitif i sŵn (MTAN1).
- Ni ddylai gweithgareddau dros dro fynd y tu hwnt i 70 dB LAeq, 1awr (amodau clir) am hyd at 8 wythnos mewn blwyddyn.
- Rhaid cynnal arolwg monitro sŵn yn unol â chais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau ac yn unol â Safon Brydeinig BS.4142:2014 'Dulliau ar gyfer graddio ac asesu sŵn diwydiannol a masnachol' i asesu a dangos y cydymffurfir â'r terfyn ar sŵn.
- Rhaid cael cymeradwyaeth yr awdurdod lleol ynghylch dulliau rheoli neu liniaru sŵn cysylltiedig â pheiriannau ac offer penodol cyn eu gosod a'u gweithredu ar y safle gan gynnwys lefelau pŵer sŵn penodol cyn eu defnyddio ar y safle.

5.34 Fel y crybwyllwyd eisoes, gallai sŵn traffig ffordd effeithio ar eiddo rhwng y chwarel a Phont Seiont. Dylid cyfyngu ar oriau gwaith rhag i ormod o loriau trymion deithio i ac o'r chwarel drwy ardaloedd trigiannol yn gynnar yn y bore ac yn y nos. I leihau unrhyw effeithiau, gellid gosod amodau ar y safle i sicrhau na ddylid derbyn na symud defnyddiau na gweithio ar y safle y tu allan i'r adegau a'r dyddiau canlynol:

- Rhwng 7.00am 6.00pm o ddydd Llun tan ddydd Gwener;
- Rhwng 7.00am a 1.00pm ddydd Sadwrn;

- Dim danfoniadau ar y Sul nac ar Wyliau Banc;
- Bod cofnod ysgrifenedig o symudiadau cludo i fod ar gael ar gais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau;

5.35 Ystyrir y gallai’r safle weithio heb amharu gormod ar fwynderau’r ardal yn unol â’r amodau cynllunio a osodwyd i reoli’r gwaith yn ogystal ag yn unol ag ymarfer da a'r rhestr o fesurau ymarferol a gynigiwyd yn y cais. I liniaru effeithiau amgylcheddol posibl y datblygiad, mae'r amodau sŵn a llwch yn cynnwys bod yn rhaid monitro bob blwyddyn ac y dylai oriau gwaith fod fel sydd yno eisoes, 7.00am tan 7.00pm o ddydd Llun tan ddydd Gwener, 7.00 tan 1.00pm ddydd Sadwrn ac na ddylid gweithio mwynau ar y Sul nac ar Wyliau Banc na Gwyliau Cyhoeddus.

5.36 Gyda'r amodau cynllunio a osodir i gyfyngu ar effeithiau sŵn, llwch, cludo, oriau gwaith a hyd y prosiect (3 blynedd i ganiatáu cludo defnyddiau ar y safle a 5 mlynedd i gyd) ystyrir fod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisïau B23, B30, B33, C9, C19 C22 & C24 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn ogystal ag a Pholisïau CYFF 1, GWA 2, MWYN 4, MWYN 6 & MWYN 9 y Cynllun Datblygu ar y Cyd sydd ar y gweill.

**Mwynderau Gweledol**

5.37 Mae Chwarel Seiont ar ddarn helaeth o dir i’r de o Gaernarfon ac yn ymestyn o argloddiau coediog Afon Seiont yn y gorllewin i bantiau a bryniau tir glas a phentref Caeathro yn y dwyrain. Mae llwybr yr hen reilffordd rhwng Caernarfon a Llanberis yn rhedeg drwy’r safle ac mae llawer o rwbel wedi'i osod yno dros y blynyddoedd sy’n cuddio’r chwarel o ystâd dai Parc Hendre ac Ysbyty Eryri.

5.38 Mae'r effeithiau ar y dirwedd a’r effeithiau gweledol yn codi o gyfuniad o faint yr effeithiau hynny a sensitifrwydd gosodiad y dirwedd i newid. Byddai’r datblygiad arfaethedig yn effeithio’n uniongyrchol ar safle’r cais yn ystod cyfnod y gwaith. Mae hyn yn anorfod oherwydd natur gwaith cloddio am fwynau a gwaredu gwastraff. Mae’r cais wedi ystyried sensitifrwydd y dynodiadau yn y dirwedd o amgylch, ardaloedd trigiannol a derbynyddion hamdden.

5.39 Mae’r asesiad tirwedd a gweledol a gyflwynwyd gyda’r cais yn datgan; “.... *Tirwedd ac mae asesiad effeithiau gweledol yn defnyddio dau ddull, tebyg ond annibynnol. Mae’r asesiad tirlun yn ystyried y dopograffeg, gorchudd y tir a’i ddefnydd a’i gyflwr i ddod i ddeall ansawdd a chymeriad tirwedd a’i sensitifrwydd i newid Mae’r asesiad gweledol yn adeiladu ar ganlyniad yr asesiad tirwedd ac yn ystyried yr effeithiau a allai godi ar fwynderau gweledol."*

5.40 Gallai’r effeithiau gweledol a thirwedd godi o gyfuniad o waith ar y safle, symudiadau traffig, pentyrrau o ddefnyddiau a chloddiau cuddio, wynebau agored a cholli elfennau'r dirwedd, gan gynnwys ffurf y tir a llystyfiant, yn ystod cyfnodau cloddio, adfer a gwaredu defnyddiau ac adeiladu llwybrau cludo. Yn hyn o beth, mae’r asesiad effeithiau tirwedd a gweledol wedi ystyried gwaelodlin o effeithiau ar y prif dderbynyddion gweledol gan gynnwys dynodiadau tirwedd statudol ac anstatudol, llwybrau hamdden, parciau a gerddi cofrestredig, Safle Treftadaeth y Byd Unesco, asedau treftadaeth ddiwylliannol a gwybodaeth o Nodweddion Cymeriad Tirwedd Strategol a system ddata LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru.

5.41 Mae'r safle tua 2,300 metr i’r de-ddwyrain o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Cwningar Niwbwrch a Thraeth Abermenai Ynys Môn a 5,500 metr i’r gogledd-orllewin o Barc Cenedlaethol Eryri a Betws Garmon. Mae’r adroddiad hwn yn cytuno gyda’r asesiad tirwedd

a gweledol o ran bod pellter y datblygiad arfaethedig a phresenoldeb nodweddion tirwedd a'r amgylchedd adeiledig yn ei gwneud yn anodd i wahaniaethu'r datblygiad oddi wrth y dirwedd bresennol a bod yr effeithiau ar y dynodiadau statudol hyn felly yn ddibwys.

5.42 Cytunir ymhellach yn y crynodeb o arwyddocâd effeithiau tirwedd, fod yr effeithiau ar 26 o ardaloedd nodweddion tirwedd yn yr asesiad yn ddibwys. Er bod safle'r hen waith brics yn un fawr, y mae, at ei gilydd yn cael eu cuddio gan lystyfiant aeddfed, y dopograffeg o'i chwmpas a chan amgylchedd trefol Caernarfon. Er y byddai'r datblygiad yn effeithio'n uniongyrchol ar Ddyffryn yr Iseldir Afon Seiont a Thir Isel Bryniog a Phantiog Caeathro, mae safle'r chwarel ei hunan yn elfen o dirwedd wedi dirywio sydd eisoes i'w gweld o gyrion Anheddiad 19eg Ganrif Caernarfon a'r Asesiad Cymeriad Tirwedd Anheddiad Modern Caernarfon.

5.43 Mae Eglwys Llanbeblig (Adeilad Rhestredig Gradd 1), Ysgol yr Hendre ac eiddo yng Nglan Seiont, ac ystâd dai Parc yr Hendre oll yn dderbynyddion sensitif ar bellteroedd canolradd i'r datblygiad a bydd yn effeithio'n anuniongyrchol ar y rhain yn y cyfnodau adeiladu ac adfer. Y newid gweledol mwyaf fyddai i'r gogledd-orllewin o'r pwll clai lle bwriedir adeiladu llwybr cludo i gysylltu â safle adeiladu'r ffordd osgoi mewn ardal o dir glas amaethyddol. Byddai eiddo a derbynyddion sensitif eraill yn agos at y safle'n profi newid ar wahanol gyfnodau o'r datblygiad. Byddai Ysbyty Eryri a'r llwybr troed ger Afon Seiont o'r A4085 i Ffordd Felin Seion yn cael eu hamharu dros dro pan sefydlir iard y safle a phan fydd yn gweithredu, gan waith adeiladu'r llwybr cludo newydd yn ogystal â gan waith chwarel a gwaredu gwastraff yn ystod y gwaith adfer.

5.44 Rhagwelir y bydd sawl eiddo'n edrych dros y chwarel a'r caeau i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain yn dioddef ychydig o effeithiau niweidiol yn ystod cyfnod adeiladu'r datblygiad arfaethedig. Byddai'r olygfa'n dioddef a llai i'w gweld o'r tir amaethyddol, coed a gwrychoedd. Fodd bynnag, dylid ystyried maint y newid a'r effeithiau niweidiol yng nghyd-destun y ffaith y byddai'r ffordd osgoi yn cyfrannu fwyaf at niwed uniongyrchol a pharhaol ar y dirwedd ac i dai gwasgaredig yng Nghaeathro ac ar yr Ardal Cymeriad Tirlun Bryniog a Phantiog. O gofio mai effeithiau dros dro, byr dymor sy'n gysylltiedig â Chwarel Seiont yn ystod cyfnod contract y ffordd osgoi, ni ystyrir y bydd effeithiau cronnol y datblygiad sy'n cael ei ystyried yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar fwynderau gweledol yr ardal. Ni ellir asesu'r effeithiau ar lwybrau cyhoeddus sy'n croesi'r chwarel a'r llwybr cludo gogleddol yn nhermau cynigion y datblygiad oherwydd bydd y llwybrau cyhoeddus hyn yn cael eu dargyfeirio drwy orchmynion dargyfeirio yn unol â gofynion cynllun y ffordd osgoi.

5.45 Mae Polisi C14 o'r Cynllun Datblygu Unedol yn dweud fod yn rhaid cynllunio cynlluniau ar gyfer adfer ac ôl-ofal gyda chais am waith mwynau. Mae'r cynigion yn cynnwys adfer ac ail ffurfio wynebau'r chwarel i greu ffurf tir derbyniol i hyrwyddo cadwraeth natur a bioamrywiaeth. Mae ffurf ponciau'r chwarel ar hyn o bryd yn ganlyniad i drefn o weithio eithaf diweddar yn unol â'r Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau, lle gwaredwyd haenau o bridd a chlai brics mewn cynllun dwys 'contract ymgyrch' o weithio, yn hytrach na bod deunydd yn cael ei gloddio yn ôl y gofyn i sicrhau cyflenwad cyson ar gyfer yr odynau brics. Etifeddiaeth y gwaith hwn yw fod cryn dipyn o rwbel cloddio mwynau yn dal wedi'i bentyrru ar safle'r hen waith brics ac y byddai ffurf y ponciau o glai tywyll yn dal yno nes y byddai deunydd adfer ar gael o waith clirio tir ar gyfer y gwaith o'u hadfer.

5.46 Fel y nodwyd eisoes, bydd defnyddio'r deunydd a ddaw ar gael o'r cynllun ffordd osgoi yn cyflymu'r cynllun ar gyfer adfer y safle a fyddai, fel arall, yn gofyn am ffordd wahanol a gadael i natur gymryd ei chwrs. Senario 'gwneud dim' yn aml yw'r ffordd orau o adfer hen chwareli; mae'n annog bioamrywiaeth ac mae yna dystiolaeth glir fod rhannau o'r safle wedi

ail dyfu a chofnodwyd llawer o goed, prysglwyni a chynefinoedd yn adroddiad y swyddog bioamrywiaeth. Er hynny, byddai prinder dail yn ystod misoedd y gaeaf yn dangos yr is haenau tywyll o glai a byddai'n goruchafu ar amlen weledol y chwarel am ran sylweddol o'r flwyddyn.

5.47 Dymuniad yr ymgeisydd yw defnyddio'r gwastraff na fydd ei angen ar gyfer gwaith y ffordd osgoi i sefydlogi tir ond, hefyd, nid oes unrhyw lystyfiant ar lawer o bonciau'r chwarel. Byddai cynllun o adfer mewn cyfnodau yn rhoi blaenoriaeth i drin y llethrau moel, wedi eu gweithio, yn gyfle i gael cynefin mwy amrywiol ond hefyd yn sefydlu peth tyfiant gwyrdd ar bonciau'r chwarel, hyd yn oed yn ystod misoedd y gaeaf.

5.48 Ystyrir, felly, gyda chynllun adfer mewn cyfnodau i dargedu ardaloedd allweddol, fod y datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor a bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisïau B8, B12, B14, B27, C3, C9, C14, C15, C19, C22 & C24 y Cynllun Datblygu Unedol yn ogystal â Pholisïau AMG 2, AT 1, Polisi AHNE newydd, PCYFF 1, GWA 2, MWYN 4, MWYN 9 & MWYN 10 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gweill.

**Treftadaeth Ddiwylliannol**

5.49 Mae rhestr yn y Datganiad Amgylcheddol o ganllawiau cyfreithiol a chynllunio perthnasol fel cefndir i'r asesiad o effeithiau amgylcheddol y cynllun ar y nodweddion gwybyddus o ddiddordeb diwylliannol, henebion, asedau treftadaeth ac adeiladau rhestredig. Mae meini prawf asesu a gwerthusiad o gynigion y datblygiad yn cyd-fynd â'r fethodoleg a ddefnyddir i benderfynu ar effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y dirwedd a'r rhai gweledol.

5.50 Mae cyfoeth o asedau treftadaeth ddiwylliannol yng Nghaernarfon ac mae'r safle o fewn 1.5 cilometr i Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon a Waliau'r Dref, Caer Rufeinig Segontiwm ac Eglwys Llanbeblig. Yn ogystal mae adeiladau rhestredig Gradd II, Bryn Eglwys a Bryn Eden, yn agos at y chwarel a gwaith y ffordd osgoi yn ogystal â'r Parc Rhestredig Gradd II o'r 19eg Ganrif a ddyluniwyd o gwmpas llyn artiffisial ger Ffordd Felin Seiont, tua 250 metr o fan agosaf safle'r cais.

5.51 Mae'r safle ei hunan wedi'i ffurfio o haenau dwfn o glai Ordofisiaidd gyda haenau rhewlif Cwaternaidd uwch eu pen. Dangosodd archwiliadau ar y safle o'r blaen waddodion o gryn arwyddocâd wrth geisio deall digwyddiadau Cwaternaidd yng ngorllewin Prydain, gan gynnwys darnau o goed, conwyddau, paill a gweddillion chwilod. Dynodwyd y safle'n un o Bwysigrwydd Daearegol Rhanbarthol ond sydd wedi'i hymestyn yn helaeth gyda'r gwaith brics ers ei sefydlu ganol y 19eg Ganrif. Awgryma'r adroddiad y gallai'r ffordd Rufeinig o gaer Segontiwm fod wedi rhedeg drwy'r dirwedd o Fryn Pen y Bryn, er y byddai wedi cael ei dinistrio gan gloddio yn y 60 mlynedd a aeth heibio.

5.52 Mewn ymateb i ymgynghoriad, cadarnhaodd CADW eu bod yn cytuno â'r asesiad treftadaeth ddiwylliannol na fyddai effaith y cynigion ar Barc Comin y Morfa sydd wedi'i restru'n Gradd II yn arwyddocaol. Efallai y bydd yn bosibl gweld ychydig o loriau ar y llwybr cludo ac ymyl estyniad y chwarel o Gastell Caernarfon a Waliau'r Dref yn ystod y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag, oddi yno, ychydig iawn fyddai gwaith adeiladu'r ffordd osgoi a llwybr cludo'r chwarel yn ei effeithio ar yr amlen weledol gyfan ac felly, ni ystyrir y byddai'n cael effaith hir dymor arwyddocaol ar Werth Byd Eang Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd. Ymhellach, mae'r adroddiad hwn yn cytuno gyda chasgliadau'r asesiad treftadaeth ddiwylliannol mai dibwys fyddai'r effeithiau anuniongyrchol ar yr asedau treftadaeth ehangach, adeiladau rhestredig ac ardal cadwraeth o fewn anheddiad 19eg Ganrif Caernarfon.

5.53 Fel y soniwyd eisoes, mae yna adeiladau rhestredig yn agos iawn at y chwarel a allai gael eu heffeithio gan y datblygiad yn ystod y cyfnod adeiladu oherwydd effeithiau sŵn, llwch ac aflonyddwch. Fodd bynnag, o ystyried lleoliad y chwarel a'r llwybrau cludo cysylltiedig mewn perthynas â'r ffordd osgoi, yn ogystal â lleoliad eiddo Bryn Eglwys a Bryn Eden a fydd hefyd yn cael eu heffeithio, ystyrir y byddai'n well cynnwys mesurau lliniaru yn nyluniad gwaith adeiladu'r ffordd osgoi yn hytrach na sgrinio ffisegol ar ffurf argloddiau neu fyndiau pridd. Bydd y llwybr cludo gogleddol yn rhedeg drwy hafn a bydd byndiau cadw pridd wyneb yn helpu i guddio'r datblygiad rhag eiddo heb ei restru Plas Treflan sydd tua 150m i'r gogledd orllewin o'r datblygiad arfaethedig.

5.54 Dylid ystyried maint y newid ac unrhyw effeithiau niweidiol yng nghyd-destun y ffaith mai'r ffordd osgoi fyddai'n cyfrannu fwyaf at niwed uniongyrchol i'r dirwedd a'r effaith weledol. O gofio mai effeithiau dros dro, byr dymor sy'n gysylltiedig â Chwarel Seiont yn ystod cyfnod contract y ffordd osgoi fyddai hyn, ni ystyrir y bydd effeithiau cronnol y datblygiad sy'n cael ei ystyried yma yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar leoliad yr adeiladau rhestredig. Mae'r chwarel yn elfen sydd wedi effeithio ar y dirwedd ac mae'r cynigion adfer yn dangos y gellid gwella ar ymddangosiad gweledol y safle.

5.55 Mewn ymateb i ymgynghoriad ar gwmpasu'r datganiad amgylcheddol, ni ddangoswyd i'r awdurdod y byddai unrhyw effeithiau posibl ar unrhyw safleoedd archeolegol gwybyddus nac ar fannau ble y byddai'n debyg cael canfyddiadau archeolegol. O ran unrhyw effeithiau uniongyrchol y cynigion datblygu, cytunir gyda'r asesiad effeithiau diwylliannol mai dim ond o fewn terfynau presennol y chwarel y bydd mwynau'n cael eu cloddio a rwbel gwaith y ffordd osgoi yn cael ei waredu ac mai dim ond ar safle'r hen waith brics y bydd iard y gwaith. Yr unig eithriad yw y bydd llwybr cludo gogleddol yn pontio rhwng y llain o dir amaethyddol sy'n cysylltu â'r ffordd osgoi a'r cynigion i gloddio rhan o'r hen iard frics i'r gorllewin o'r afon, ble gallai tystiolaeth o olion diwydiannol o'r 19eg Ganrif fod wedi claddu.

5.56 Mewn ymateb i ymgynghoriad, mynegodd Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd bryder nad yw'r asesiad Treftadaeth Ddiwylliannol yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r archeolegydd rheoli datblygu i gynghori ar y cynigion ac y dylid cynnal asesiad pellach yn unol â manyleb i'w gytuno ymlaen llaw gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer y penderfyniad cynllunio.

5.57 Fodd bynnag, mae'r asesiad yn cyfeirio at ffynonellau ysgrifenedig o waith archeolegol gan gynnwys y rhan honno o'r llwybr cludo deheuol a fydd yn ymestyn o'r hen waith brics, ar hyd hen bonciau'r chwarel hyd at lwybr y ffordd osgoi. Roedd Rhif Prosiect Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd G1952, Adroddiad Rhif 687 yn cynnwys brîff gwylio a gynhaliwyd fis Hydref 2007 duriwyd llain o dir diwethaf yn Seiont yn union ger llwybr y ffordd osgoi. I grynhoi daw'r adroddiad i'r casgliad: *cynhaliwyd brîff gwylio yn ystod y cyfnod pan oedd Chwarel Gwaith Brics Seiont yn cael ei ymestyn. Ni nodwyd unrhyw nodweddion archeolegol a dehonglwyd mai o darddiad rhewlif yr oedd popeth a ganfuwyd o dan y pridd. Penderfynwyd mai pori yn unig fyddai unrhyw ddefnydd amaethyddol oherwydd bod gormod o gerrig rhewlif yno i allu aredig y tir."*

5.58 Gallai fod yn briodol felly osod amod cynllunio'n gofyn am waith archeolegol pellach / brîff gwylio ar yr hen waith brics, i'r gorllewin o'r afon a'r llwybr cludo gogleddol. Mae gweddill y safle wedi cael ei haflonyddu'n ddiweddar gan waith mwynau ac ni fydd newid defnydd dros dro ar safle'r gwaith brics o'r 1960au i fod yn iard y gwaith yn golygu mwy o ddymchwel nag a wnaed yn 2010 a 2013.

5.59 Bydd y Safle Daearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol yn cael ei effeithio’n bennaf gan waith y ffordd osgoi a bydd amlygu gwaddodion rhewlifol yn gyfle i’w hastudio ymhellach. Mae cofnodion da ar gael yn dangos y cafwyd gwybodaeth werthfawr ar y safle yma wrth dorri a chloddio i’r haenau o fwynau ar ddilyniant a natur digwyddiadau Cwaternaidd. Pen y Bryn yw’r unig un yn y rhwydwaith o safleoedd stratigraffig Cwaternaidd ar draws Môn, Llŷn ac ymyl arfordirol Gwynedd i gynnwys haenau organig o oes gyn-rewlifol. Mae amodau eisoes yn bodoli ar benderfyniad yr Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau i roi cyfrif am a chofnodi unrhyw beth a welir wrth gloddio mwynau a gellid ailadrodd hynny ar unrhyw ganiatâd pellach.

5.60 Os gosodir amodau cynllunio priodol fel y crybwyllir uchod, bydd y cynnig yn cydymffurfio â Pholisïau C9, C15, C19, C22, C24, B3, B6, B7, B12 a B18 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd a hefyd â Pholisïau PCYFF 1, AMG 2, AT 1, AT 4, GWA 2, MWYN 4, MWYN 6, MWYN 9 a MWYN 10 o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gweill.

**Effeithiau Priffyrdd**

5.61 Mae yn y Datganiad Amgylcheddol asesiad cynhwysfawr o’r effeithiau traffig sy’n gysylltiedig â defnyddio’r safle ar gyfer gwaith adeiladu’r ffordd osgoi. Mae manteision economaidd, logistaidd ac amgylcheddol, o ran effeithiau priffyrdd, i’w cael o ddefnyddio’r chwarel, gan ei bod wrth ymyl llwybr arfaethedig y ffordd osgoi a bydd yn bodloni’r rhan fwyaf o ofynion mwynau’r cynllun. Mae trafodaethau gyda’r ymgeisydd yn cadarnhau, oherwydd natur y gwaith peirianneg sifil, na ellir bod yn sicr ynghylch ansawdd na sŵn y defnyddiau a gynhyrchir oherwydd gallai tywydd drwg achosi'r cynllun i or-redeg. O ran effeithiau cludiant, mae’r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau y byddai llawer o’r 400,000m3 cyfanswm achos gwaethaf o ddeunydd yn cael ei gludo rhwng Ebrill a Hydref, gyda hyd at 80% yn ystod Gorffennaf, Awst a Medi.

5.62 Wrth ddewis defnyddio’r chwarel gyda chyswllt uniongyrchol i’r ffordd osgoi trwy ffyrdd cludo mewnol, ni fyddai'r lorïau cludo trymion yn defnyddio ffyrdd cyhoeddus o gwbl. Mae’r Datganiad Amgylcheddol yn dangos senario cymharol pe byddai ffynhonnell y defnydd ar gyfer y ffordd osgoi a’r ystorfa ar gyfer gwaredu defnyddiau ymhell o safle’r ffordd osgoi. Mae’r gweithredwr yn bwriadu cludo oddi ar y ffordd gyda thryciau tipio 40 tunnell ar yr egwyddor dychwelyd â llwyth yn hytrach na loriau trymion confensiynol yn cario llwyth o 20 tunnell. Byddai hynny’n golygu y byddai angen cyfanswm o 44,440 o symudiadau lori gyda llwyth o 40 tunnell i gario hyd at 400,000m3 o ddefnyddiau i ac o’r safle. O gymharu, byddai angen cyfwerth â 88,890 o symudiadau cludo gyda llwyth o 20 tunnell ar y rhwydwaith ffyrdd lleol petai'r ffynonellau o ddefnyddiau a’r adnoddau gwaredu ymhell o safle adeiladu’r ffordd osgoi.

5.63 Yn ogystal â’r symudiadau cludiant sy’n gysylltiedig â gwaith y ffordd osgoi, mae’r effeithiau traffig sy’n gysylltiedig â defnyddio’r safle gwaith brics yn cynnwys cerbydau preifat a cherbydau danfon bychain yn defnyddio'r fynedfa yn Ffordd Felin Seiont gydol cyfnod y prosiect (tua 25 symudiad yn y bore a chyda'r nos) ond hefyd ychydig o loriau trymion yn ystod y cyfnod 3 mis o sefydlu a dadgomisiynu’r gwaith. Yn ystod y cyfnod adeiladu’r ffordd osgoi, disgwylir y bydd tua 60 o bobl ar y safle ar unrhyw adeg yn teithio mewn car yn ddyddiol ac yn defnyddio’r adnoddau parcio ar safle a fydd yn cael eu darparu ar iard y contractwr. Oherwydd mai byr fydd y cyfnod o ddefnyddio ac adfer y chwarel i gymharu â’r gwaith ar y ffordd osgoi, mae’r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau y daw’r traffig ar Ffordd Felin Seiont ar ôl i’r prosiect orffen.

5.64 Byrdwn y datblygiad yw y gellid ystyried fod y datblygiad yn ategol i ofynion prosiect seilwaith ffyrdd cenedlaethol. Byddai safle gyda mynediad uniongyrchol i’r cynllun ffordd yn

lliniaru'r effaith y gallai cludiant trwm ei gael ar y seilwaith ffyrdd lleol yn ogystal â bodloni'r egwyddor agosatrwydd ynghylch anghenion y prosiect. Ymhellach, mae gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd mewn cefnogaeth i'r cais yn cadarnhau mai dim ond ar gyfer gwaith adeiladu'r ffordd osgoi y bydd angen y llwybr cludo gogleddol ac nad yw'n cael ei gynnig fel mynedfa gerbydau barhaol i'r chwarel.

5.65 Fel y nodwyd o'r blaen, mae effeithiau cludiant mewn cysylltiad â defnyddio'r chwarel yn arwyddocaol ac ystyrir felly, y dylid cyfyngu ar y gwaith sy'n cynnwys cludo deunydd llenwi i mewn ac allan o'r chwarel at ddibenion y ffordd osgoi i gyfnod o 3 blynedd o'r dyddiad yr hysbysir bod y gwaith tirlenwi yn cychwyn ac mai dim ond y llwybrau cludiant sy'n cael eu dangos ar gynlluniau cais fel rhai sydd â mynediad uniongyrchol i safle adeiladu'r ffordd osgoi fydd yn cael eu defnyddio. Er nad yw'n cael ei ystyried gyda'r cais cynllunio hwn, dylid nodi fod darpariaeth yn y '*Gorchymyn Cefnffordd Abergwaun i Fangor (A487) (Ffordd Osgoi Caernarfon a Bontnewydd) (Ffyrdd Ochr) 201_';* ar gyfer trefniadau mynediad preifat o'r A4085 i dir amaethyddol i'r gogledd o'r chwarel fel rhan o'r cynigion ar gyfer y ffordd osgoi. Byddai unrhyw fwriad i gael mynediad hir dymor o'r A4085 i'r chwarel angen caniatâd cynllunio arall.

5.66 Hefyd, bydd yn rhaid cyflwyno cynlluniau diwygiedig cyn dechrau'r datblygiad i nodi'r senario gwaethaf, canolradd a gorau yn seiliedig ar faint o bridd/ deunydd adfer a fydd ar gael a hefyd gynllun gwaredu ac adfer mewn cyfnodau i dargedu ardaloedd allweddol yn ystod cyfnod y datblygiad.

5.67 Mae'r cynnig felly'n cydymffurfio â Pholisïau C9, C19, CH33 a CH36 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn ogystal â Pholisïau PS 5, MWYN 4, MWYN 9 & TRA 1 y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar y gweill.

## Draenio, yr Amgylchedd Dŵr a Thir Halogedig

5.68 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau, ers cloddio am glai ddiwethaf yn 2007, fod y twll chwarel wedi llenwi â dŵr i ffurfio corff dŵr tua 15m o ddyfnder a bod lefel y dŵr yn cael ei reoli trwy ffos orlifo sy'n gollwng i Afon Seiont tua 13m AOD. Pan oedd y chwarel yn gweithio, roedd y twll yn dal mwd ac yn lagŵn setlo ar gyfer yr holl ddŵr a oedd yn rhedeg o'r tir oedd wedi'i gloddio. Yn ogystal â hynny, roedd dŵr yn cael ei bwmpio o dro i dro i mewn i lagŵn setlo arall yng nghornel de-orllewin y gwaith brics. Roedd y lagŵn hon hefyd yn casglu dŵr wyneb o fannau eraill cyfagos yn y chwarel gan gynnwys rhan o iard yr hen waith brics.

5.69 Mae'r chwarel wedi'i ffurfio o glai trwm ac mae'r twll yn cael ei lenwi gyda dŵr wyneb yn bennaf, ond gallai dŵr ddaear dreiddio iddo hefyd o'r llethrau uwch. Ni chafwyd dŵr ddaear yn unrhyw un o'r pyllau prawf ar safle'r hen waith brics a'r storfa frics ar ochr orllewinol yr afon, ond cofnodwyd dŵr ddaear eithaf bas mewn dau ddyfrdwll ar ffin gogledd-ddwyreiniol y safle. Roedd dau ddyfrdwll arall gerllaw yn sych, sy'n awgrymu nad yw dŵr ddaear yn bresennol ar bob rhan o'r safle, a'i fod yn debycach o fod yn bresennol mewn rhai mannau penodol lle mae'r deunydd yn fwy treiddadwy. Mae mân ffynhonnau wedi'u cofnodi ar wyneb deheuol y chwarel ond yn seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynwyd yn yr ymchwiliad daear daearegol; daeth y Datganiad Amgylcheddol i'r casgliad mai prin yw'r perygl y byddai dŵr daear yn achosi llifogydd ar y safle.

5.70 Mae'r gwaith sy'n cael ei ddisgrifio yn y cais yn cynnwys cloddio'r clai a'r haenau uwch ei ben i adeiladu'r ffordd osgoi a hefyd gario'r deunydd dros ben i'w ddefnyddio wrth adfer. Bydd clirio'r tomeni brics a chloddio rhan o'r man i'r gorllewin o'r iard goncrid lle'r oedd

brics yn cael eu cadw yn gostwng lefel y tir o 1-1.5 metr gan roi mwy o le i gadw dŵr llifogydd. Bydd safle'r hen waith brics hefyd yn cael ei ddefnyddio fel iard contractwr a fydd yn cynnwys adnoddau lles staff, storfa danwydd, tanc cadw dŵr budur, sied gynnal a chadw ac adnoddau ar gyfer concrid ac asffalt.

5.71 I hyrwyddo’r gwaith a restrir uchod, bydd yn rhaid pwmpio dŵr o’r twll chwarel i Afon Seiont a allai greu mwy o berygl llifogydd i lawr yr afon. Byddai llenwi’r twll yn ailffurfio lefelau’r tir i 15 metr AOD ac yn cael gwared yn barhaol o’r twll llawn dŵr sydd wedi datblygu ers cau'r chwarel yn gynamserol yn 2008. Mewn ymateb i ymgynghoriad, cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd berygl y byddai pysgod yn y twll pan fyddai'n cael ei wagio. Byddai llenwi’r twll chwarel hefyd yn lliniaru unrhyw berygl i'r cyhoedd yn codi o bwll dwfn yn llawn dŵr.

5.72 Wrth ymateb i ymgynghoriad cyn cais, cynhaliodd Dŵr Cymru, fel yr ymgymerwr carthffosiaeth statudol, asesiad o faint o ddŵr budr y gellid ei ddisgwyl fyddai'n cael ei ollwng o'r datblygiad arfaethedig, yn ogystal ag o’r mesurau lliniaru er mwyn gallu cysylltu â’r system garthffosiaeth gyhoeddus. Wrth ymateb i’r pryderon ynghylch rhoi gormod o bwysau ar y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff, cadarnhaodd yr ymgeisydd y defnyddid ‘tanc cadw symudol uwchben y tir’ i gadw unrhyw garthffosiaeth a gynhyrchid gydol y prosiect. Wrth ymateb, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd, y byddai’n well cael cysylltiad â'r system garthffosiaeth gyhoeddus o gofio fod y safle o fewn pellter rhesymol i’r seilwaith trin presennol ac i ddilyn yr hierarchaeth ddraenio. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n cydnabod mai gwaith dros dro a geir yma ac efallai na fyddai’n ddichonadwy dilyn yr hierarchaeth oherwydd costau uwchraddio, yr amser a gymerai hynny a chostau o gael gwared ar seilwaith sydd wedi’i ddylunio i fod yn barhaol ar ôl gorffen prosiect byr.

5.73 Cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru restr gynhwysfawr o sylwadau sy’n amlinellu gofynion ac amodau penodol y dylid eu gosod ar unrhyw ganiatâd, gan gynnwys y dylid cyflwyno manylion llawn y tanc cadw i’w cymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol cyn bod y gwaith yn cychwyn ac amod bellach yn gofyn i unrhyw seilwaith dros dro ar gyfer draenio dŵr budr ar y safle gael i ddadgomisiynu’n llwyr a’i symud oddi ar y safle pan ddaw cyfnod y caniatâd i ben.

5.74 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n gofyn am reoli datblygu a pheryglon llifogydd *"mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio gael cyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru a rhoi sylw dyladwy fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau unigol”.* Mae Nodyn Cyngor Technegol 15 yn datgan ymhellach na ddylid symud ymlaen â datblygiad nes penderfynu a ellir rheoli canlyniadau llifogydd ar y datblygiad hwnnw i lefel dderbyniol ar gyfer natur / math y datblygiad a gynigir h.y. ‘Asesiad Canlyniadau Llifogydd’. Mae rhan o'r safle yn cael ei dangos o fewn C2 ar Fapiau Cyngor Datblygu yn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pheryglon Llifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n cadarnhau fod yr Asesiad Canlyniadau Llifogydd a gyflwynwyd gyda'r cais yn rhoi amcangyfrif cywir o beryglon llifogydd posibl sy'n dangos na fyddai llifogydd ar y datblygiadau ar ran o'r safle (*mannau adeiladau’r safle a'r meysydd parcio)* mewn gwahanol ddigwyddiadau o lifogydd gan gynnwys digwyddiad o lifogydd eithafol (0.1% AEP neu ddigwyddiad 1 mewn 1000). Fel y nodwyd o’r blaen, gellid defnyddio’r man lle cedwid brics i gadw dŵr llifogydd gan y bydd y safle’n cael ei chloddio. Gellir casglu, felly, na fyddai’r datblygiad yn cynyddu llifogydd mewn mannau eraill ac y byddai’r llwybr cludo ar y safle'n ddihangfa arall i drigolion Ffordd Felin Seiont mewn llifogydd.

5.75 Nid yw’r safle wedi’i chynnwys ar gofrestr yr Awdurdod o dir halogedig ond, o ran ymdrin â thir a allai fod yn ansefydlog neu’n halogedig, mae paragraff 13.5.1 o Bolisi Cynllunio Cymru'n datgan " *Dylai’r system gynllunio arwain y broses ddatblygu i leihau’r risgiau sy’n codi yn sgil peryglon naturiol neu wneuthuredig, gan gynnwys risgiau o ganlyniad i dir ansad a thir halogedig. Nid atal datblygu tir o’r fath yw’r nod, er y gallai hynny fod yn ymateb priodol mewn rhai achosion. Yn hytrach, y nod yw sicrhau bod y datblygu’n addas a bod y cyfyngiadau ffisegol ar y tir, gan gynnwys yr effaith y disgwylir i’r newid yn yr hinsawdd ei chael, yn cael eu hystyried bob cam o’r broses gynllunio. Fodd bynnag, y datblygwr sy’n gyfrifol o hyd am ganfod i ba raddau y mae’r tir yn ansad, a beth fyddai effaith hynny, yn ogystal ag ystyried unrhyw risgiau eraill. Mater i’r datblygwr yw sicrhau bod y tir yn addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig, gan nad oes gan yr awdurdod cynllunio ddyletswydd gofal i dirfeddianwyr.*

5.76 Daw Pennod 10 y Datganiad Amgylcheddol a’r atodiadau i’w gefnogi ‘*adroddiad cyflwr, ymchwiliad halogiad tir ac asesiad risg’* i'r casgliad “nad yw canlyniadau samplo a dadansoddi wedi dangos unrhyw halogiad o fewn haenau'r ddaear ar y safle a allai beryglu iechyd pobl heblaw ychydig iawn, iawn, o asbestos. Fodd bynnag, mae’r rhan fwyaf safle o dan slab o goncrid, a fydd yn aros yn ei le, a selir neu gorchuddir ag agregau fannau eraill ar y safle sy’n noeth ar hyn o bryd er mwyn i gerbydau allu symud yn rhwydd ar iard y safle. Mae’r perygl i bobl, felly yn codi o haenau’r ddaear yn ddibwys, ac ymhellach, ni chanfuwyd fawr ddim halogyddion ac felly does dim ffynhonnell o halogyddion a allai gael eu cario oddi yno. Gan nad oes halogyddion i’w cario oddi yno, does dim perygl i ddyfroedd sy’n cael eu rheoli”.

5.77 Wrth ymateb i ymgynghori, dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad yw’r dyfroedd sy'n cael eu rheoli o dan y safle o'r sensitifrwydd amgylcheddol pennaf ac, ar y rhagdybiaeth nad oes halogiad difrifol yma, dylid dilyn gofynion Polisi Cynllunio Cymru a’r Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Tir Halogedig. Os canfyddir halogiad difrifol, dylai’r Awdurdod Cynllunio Mwynau ail-ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ac argymell y dylai'r datblygwr ddilyn ei fframwaith rheoli risg, gweithdrefnau model a'r 'Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Tir Halogedig a'r Egwyddorion a'r Ymarferion i Amddiffyn Dŵr Daear’ (GP3).

5.78 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd yn argymell gosod amod cynllunio i sicrhau, os deuir ar draws halogiad yn ystod y datblygiad nad oedd wedi'i ganfod o'r blaen, na ddylid symud ymlaen ymhellach â'r datblygiad (oni chytunir yn wahanol yn ysgrifenedig) nes y bydd strategaeth adfer wedi'i chyflwyno i gael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau.

5.79 Er gwaethaf yr uchod, ac yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, bydd gofyn i Gyngor Gwynedd, fel yr awdurdod cynllunio mwynau, gyflwyno rhybudd gydag unrhyw ganiatâd *“i hysbysu’r ymgeisydd mai’r datblygwr a / neu’r tirfeddiannwr fydd yn gyfrifol ac felly’n atebol am ddiogelwch y datblygiad a'r safle. Dylai hefyd “hysbysu’r ymgeisydd, er bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi ymdrechu hyd eithaf ei allu i benderfynu ar y cais ar sail yr wybodaeth oedd ar gael iddo, nad yw hynny'n golygu nad oes halogyddion yn y tir’.*

5.80 Mae gofyn hefyd, i gynnal rheolaeth amgylcheddol ar y gwaith o ddydd i ddydd, gan gynnwys gosod derbynyddion olew mewn systemau draenio dŵr wyneb, sicrhau y gellir casglu'r dŵr ffo sy'n rhedeg o fannau cadw defnyddiau a mannau gweithio, gan gynnwys rhwystro mwd rhag treiddio o'r llwybrau cludo i unrhyw gwrs dŵr a monitro'r holl fesurau rhwystro llygredd i sicrhau na fydd corff dŵr daear Llŷn ac Eryri yn dirywio ymhellach.

5.81 Mae’r ymgeisydd yn cadarnhau yn y Datganiad Amgylcheddol y bydd Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu yn cael ei baratoi a’i weithredu yn ystod y cyfnod gweithredu er mwyn sicrhau ymarfer da ac i liniaru i warchod amgylchedd y dŵr. Dylai cyflwyno manylion o’r fath o dan amod cynllunio grynhoi cwmpas y datblygiad o dan sylw, yr amodau gwaith ar y safle a’r mesurau i reoli effeithiau amgylcheddol fel symudiadau loriau trymion, adnoddau golchi olwynion, gorchuddio cerbydau, mannau cadw diogel, ansawdd aer, oriau gwaith, sŵn/dirgryniad, rheoli gwastraff a llygredd. Dylai’r Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu hefyd amlinellu cynllun o reolaeth amgylcheddol e.e. monitro gollyngiadau o waddod a deunydd gwastraff i liniaru’r effeithiau amgylcheddol a allai godi a datblygu gweithdrefnau datblygu a gollyngiadau. Fodd bynnag, er y gallai fod yn bosibl gofyn am gyflwyno adroddiad o dan amod i ddangos cydymffurfiad, ni ddylid ceisio dyblygu dulliau rheoli o dan gylch gorchwyl Cyfoeth Naturiol Cymru y gellid eu gweithredu drwy Drwydded Amgylcheddol.

5.82 Bydd raid i'r safle gael trwyddedau gweithredu oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys caniatâd i ollwng dŵr i'r ddaear neu i gwrs dŵr a hefyd drwydded o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer gwaith gwaredu gwastraff. Y bwriad, felly, yw cyflwyno nodyn gydag unrhyw ganiatâd yn dweud y dylai’r ymgeisydd ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru ac â Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Cyngor Gwynedd ynghylch unrhyw broblem sydd o fewn cylch gorchwyl y cyrff yma.

5.83 O ran asesu materion cynllunio, ystyrir fod y cais a’r Datganiad Amgylcheddol yn cynnig asesiad cynhwysfawr a lliniariad priodol ar gyfer problemau’n codi o reoli llif dŵr wyneb, peryglon llifogydd, amddiffyniad amgylcheddol a rhwystro llygredd a bod y cais yn cydymffurfio â gofynion polisïau A1, A3, B28, B30, B32, B33, C3, C9, C15, C19 a C22 o Gynllun Datblygu Unedig Gwynedd yn ogystal â pholisïau PS5, PS6, PS18, PS19, PCYFF 1, PCYFF5 GWA2, MWYN 4 a MWYN 9 y Cynllun Datblygu ar y Cyd sydd ar y gweill.

**Sefydlogrwydd Tir**

5.84 Mae’r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau y cloddiwyd pedwar twll yn union i’r gogledd o wyneb y chwarel lle bwriedir adeiladu llwybr cludo newydd i gysylltu gyda’r ffordd osgoi ac yn datgan fod y “*tyllau cloddio yn 15 metr o ddyfnder ac yn dangos Rhewglai o glai mwdlyd ychydig yn raeanog yn amrywio o 4 i 8 metr o ddyfnder dros leidfan hindreuliedig. Roedd dŵr daear yn y ddau dwll a gloddiwyd i'r de, BH3 a BH4, yn codi i 2 metr a 5.25 metr o dan lefel y tir.* Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau y cynhaliodd arbenigwr geodechnegol archwiliad ar dir a llethr y chwarel i’r de-orllewin o’r tyllau a gloddiwyd a’i fod wedi nodi fod y tir yn dangos arwyddion diweddar a pharhaus o ansefydlogrwydd gyda phridd wedi llithro, craciau tensiwn, llithradau ac wynebau sgarpiau'n ymestyn i lawr y llethr.

5.85 Mae’r tir ansefydlog i’w weld yn ymestyn ar draws wyneb o tua 160 metr i’r ochr ogledd-ddwyreiniol o’r chwarel a bod problem ansefydlogrwydd wedi'i gydnabod pan gyflwynwyd gwybodaeth ychwanegol fel rhan o adolygiad cychwynnol y gwaith mwynau yn 2000. Mynegodd astudiaeth ddaearegol a gyflwynwyd gyda’r cynigion bryder ynghylch y dŵr daear ac amodau’r tir ar yr un llethr, rhoddwyd tystiolaeth cof gwerin o dirlithriad a oedd yn ymddangos yn ganlyniad i glai’n troi’n hylif ar yr wyneb a gloddiwyd. Mae’r adroddiad yn cadarnhau ymhellach fod yna gwt ffynnon o frics ar derfyn gogledd-ddwyrain y chwarel, sy’n awgrymu fod yna ffynnon yn y fan honno a allai fod yn gysylltiedig â'r ansefydlogrwydd a'r dŵr sy'n treiddio ar lethr y chwarel.

5.86 O ganlyniad, roedd y cynigion i sefydlogi llethrau’r chwarel wedi’u cynnwys yn y cynigion Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau i gael gwared ar lawer iawn o’r haenau wyneb a’r clai brics oddi ar y llethrau dwyreiniol serth. Byddai’r cynigion newydd ar gyfer sefydlogi’r

llethrau'n cadw'r cyfan o'r gwrych ar fan uchaf Pen y Bryn, yn darparu llethr terfynol gyda golwg mwy naturiol a bas y gellir ei adfer gyda llethr mwy sefydlog a haws ei weithio na'r hyn sydd yna ar hyn o bryd. Byddai'r cais yn talu sylw i'r problemau sefydlogrwydd tir sy'n amlwg yn y dyddodion clai a rhewlif a'r perygl o dirlithriad, er nad yw'r safle ei hunan wedi'i chynnwys ar gofrestr yr awdurdod o dir ansefydlog. Mae paragraff 13.9.2 o Bolisi Cynllunio Cymru'n datgan; "*lle y gall mesurau derbyniol oresgyn ansadrwydd, gellir rhoi caniatâd cynllunio sy'n destun amodau sy'n pennu'r mesurau angenrheidiol"* Mae'r cynnig felly'n cydymffurfio â Pholisïau B28, C9, C14 a C19 o Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn ogystal â Pholisïau PCYFF 1, MWYN 4, MWYN 9 a MWYN 10 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd ar y gweill.

5.87 Mae Polisïau Cynllunio Cymru'n datgan ymhellach; "*Os nad oes modd goresgyn ansadrwydd yn foddhaol, gall yr awdurdod wrthod caniatâd cynllunio. Pan roddir caniatâd cynllunio, dylid rhoi rhybudd i hysbysu'r ymgeisydd mai'r datblygwr a/neu berchennog y tir sy'n gyfrifol ac sydd, o ganlyniad, yn atebol am ddatblygu a meddiannu'r safle yn ddiogel. Dylai'r rhybudd hysbysu'r ymgeisydd hefyd, er bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi ymdrechu hyd eithaf ei allu i benderfynu ar y cais ar sail yr wybodaeth a oedd ar gael iddo, nad yw hynny'n golygu bod y tir yn gwbl sad.*". Fel y nodwyd o'r blaen, byddai llenwi twll y chwarel yn datrys unrhyw broblemau bod y cyhoedd yn gallu mynd ar safle hen chwarel gyda thwll dwfn yn llawn dŵr.

## Bioamrywiaeth

5.88 Mae materion yn codi gyda'r cais hwn parthed bioamrywiaeth y gellir eu hystyried ar nifer o lefelau. Nid yw'r safle ei hun yn destun unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol megis SAC Ewropeaidd neu ddynodiad ADdGA ac, ar y cyfan, nid yw'n cynnwys unrhyw gyfyngiadau bioamrywiaeth lleol, ac eithrio'r hen storfa friciau sydd yn ystum yr afon ble ceir murddunod a choetir llydanddail aeddfed, ac sy'n safle bywyd gwyllt dynodedig lleol o dan bolisi B17 y Cynllun Datblygu Unedol.

5.89 Mae llwybrau eisoes yn bodoli, fodd bynnag, sy'n cysylltu'r safle â dynodiadau SAC statudol yn y dirwedd ehangach. Mae Cyngor Gwynedd, fel awdurdod cymwys er dibenion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) wedi cynnal prawf am effeithiau arwyddocaol tebygol a cheir crynodeb o'r canlyniadau isod (*Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau* ).

5.90 Er nad yw'r rhan fwyaf o Chwarel Seiont yn Safle Bywyd Gwyllt dynodedig, mae gwasanaeth Bioamrywiaeth y Cyngor yn datgan ei bod yn debygol ei fod yn cynnal nifer o rywogaethau o bwys cenedlaethol a lleol gan gynnwys adar sy'n nythu, gwas y neidr a mursennod, ymlusgiaid, ystlumod, moch daear, dyfrgwn ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn, yn benodol glöyn byw y Gwibiwr Llwyd sydd wedi ei restru o dan adran 7 Deddf yr Amgylchedd 2016, fel rhywogaeth flaenoriaethol i fioamrywiaeth y DU.

5.91 Â gweithgareddau mwynol wedi oedi ers 2008 a'r weithfa wedi'i dymchwel yn ddiweddarach, mae'r chwarel wedi datblygu'n safle o werth bioamrywiaeth uchel, gan gynnwys coed wedi'u plannu'n ymsefydlu ac adfywiad naturiol. Mae tystiolaeth ddigonol a gasglwyd ar y safle yn arwain at y casgliad bod amrywiaeth o gynefinoedd yn y chwarel gan gynnwys:

- glaswelltir niwtral, tryddiferiad gwlyb, glaswelltir sydd wedi'i wella'n amaethyddol
- prysg, coetir llydanddail, gwrychoedd
- llyn, dŵr agored, ffosydd, afon
- tir moel (concrid a chlai), malurion (briciau a choncrid), cynefin brithwaith agored

5.92 Parthed rhywogaethau gwarchodedig, mae Bioamrywiaeth Gwynedd a CNC wedi datgan pryderon am gyflawnrwydd gwybodaeth yr arolwg a gafodd ei gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol i gadarnhau amrediad cyflawn y cynefinoedd a'r rhywogaethau a effeithir gan y cynigion datblygu. Mae'n debygol bod y safle'n cynnal rhywogaethau o ddyfrgwn, moch daear, ymlusgiaid ac adar sy'n nythu sydd wedi'u gwarchod yn statudol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Ar y cyfan, cynigion y ffordd osgoi fydd yn cael effaith ar gynefinoedd posib ar hyd wyneb cefn y chwarel. Ac eithrio'r llwybr cludo gogleddol, mae'r cynigion sydd ger bron i'r hystyried ar dir sydd eisoes wedi ei aflonyddu, er gellid rhoi amod i liniaru unrhyw effaith posib ar adar sy'n nythu, ymlusgiaid a moch daear h.y.

- dim clirio'r safle yn ystod tymor nythu adar (1 Ebrill hyd 1 Awst) oni bai bod modd profi nad oes yno adar yn nythu
- gosod mesurau i osgoi niweidio ymlusgiaid cyn pob cymal o gloddio a stripio'r pridd,
- cadarnhau bodolaeth moch daear a rhoi mesurau lliniaru ar waith i sicrhau bod y rhywogaeth hon yn cael ei gwarchod a rhoi manylion i'r ACM (Awdurdod Cynllunio Mwynau) am unrhyw frochfa arall all fod yn ofynnol.

5.93 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau arolwg o Afon Seiont a'r chwarel, ble cerddwyd drostynt, er mwyn adnabod unrhyw nodweddion sensitif a sefydlu bodolaeth neu ddiffyg gweithgaredd dyfrgwn. Defnyddir Afon Seiont gan ddyfrgwn, ac er y gallai swmp y chwarel a'r ffos wlyb fod yn goridor addas i symudiad y dyfrgwn yn ôl a blaen o amgylchedd yr afon, nid oedd unrhyw dystiolaeth pan gynhaliwyd yr arolwg bod y safle ei hun yn rhoi cynhaliaeth i boblogaeth o ddyfrgwn. Mae'r AA, fodd bynnag, yn cadarnhau y bydd mesurau lliniaru rhagofalus yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y gwaith adeiladu ac, yn hyn o beth, ystyrir mai'r gwaith sy'n anghenrheidiol er mwyn symud y pentyrrau o friciau a gostwng lefel yr iard frics yng ngorllewin Afon Seiont sy'n peri'r perygl mwyaf. Mae'r cyflwyniad yn cadarnhau y bydd y wal garreg gynnal ar y dorlan a'r coed ar lan yr afon yn cael eu cadw am resymau amwynder. Ond, yn ogystal, gellid cadw darpariaeth o'r fath er mwyn gwarchod bioamrywiaeth leol a lliniaru'r ardrawiad posib ar rywogaethau gwarchodedig. Gellid gosod amod cyn cychwyn sy'n gofyn i bellter addas at yr afon gael ei farcio trwy osod ffens, ond hefyd i gyfeirio at gynllun adfer a thrawstoriad manwl i gadarnhau maint y gwaith yn yr ardal hon o'r chwarel.

5.94 Cofnodwyd clwydfan gaeafgysgu'r ystlum pedol lleiaf mewn adeilad gwag yn ardal yr hen storfa frics a hefyd fodolaeth yr ystlum hirglust, yr ystlum lleiaf, yr ystlum lleiaf uchelsain, a'r ystlum mawr yng nghyffiniau'r safle. Mae cynefinoedd porthiant addas i ystlumod pedol leiaf yn y chwarel megis prysg, glaswelltir a choetir.

5.95 Gall y datblygiad gael effaith ar borthiant a llwybrau cymudo ystlumod a dylid cyflwyno cynllun goleuo i gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau. Yn ogystal, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig cyn clirio unrhyw lystyfiant aeddfed/nodweddion llinol a all fod yn cael eu defnyddio gan ystlumod. Mae'r DA yn datgan bod: "*mesurau lliniaru am gael eu cynnwys yn y datganiadau gweithdrefnau, gan gynnwys arolwg cyn dechrau gwaith o unrhyw goed sydd angen eu gwaredu, a strategaeth oleuo. Bydd y strategaeth oleuo'n sicrhau bod cyn lleied o oleuo artifisial â phosib ac y'u bod goleuadau'n cael eu cyfeirio oddi wrth nodweddion cynefinoedd megis gwrychoedd ac ymylon coedlanau sydd o bosib yn cael eu defnyddio gan ystlumod, a bydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu dilyn:*

- *osgoi defnyddio goleuadau y tu allan pryd a phle bynnag y bo'n bosib;*
- *isafu'r cyfnod y bydd goleuadau y tu allan ymlaen; a*
- *rheoli cyfeiriad goleuadau er mwyn atal cyn lleied o olau â phosib rhag dianc y tu hwnt i'r Compownd Adeiladu*".

5.96 Gall manylion unrhyw oleuo allanol fod yn destun amod cynllunio, felly hefyd gall cael gwared â llystyfiant. Fodd bynnag, y farn ragosodedig parthed defnyddio'r llwybr cludo presennol at ddibenion y datblygiad yw, cyn cau'r safle yn 2008, defnyddid y llwybr cludo fel y priff fodd o gludo mwynau o wyneb y gwaith i'r safle gweithgynhyrchu briciau h.y. yn unol â'r caniatâd a bennwyd gan ROMP. Byddai unrhyw waith peirianneg ar y llwybr cludo yn gofyn am gael gwared â'r coed bedw sydd wedi ymsefydlu o'r newydd yn ochrau gorllewinol y chwarel. Gan fwyaf, fodd bynnag, bydd y llwybr cludo'n dilyn llwybr y trac presennol ar lefel is at y goedlan aeddfed ar ochr orllewinol y safle.

5.97 Tra bod amcanion cynaliadwyedd Polisi Cynllunio Cymru yn hyrwyddo'r flaenoriaeth dros ddefnyddio tir diffaith neu dir sy'n cael ei danddefnyddio, rhaid cydnabod gallu'r safle i'w adfer ei hun o safbwynt gwerth ecolegol. Mae Pennod 4, Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9 - Tachwedd 2016), yn rhoi diffiniad o dir sydd eisoes wedi'i ddatblygu ble nad yw darpariaeth ar gyfer adferiad wedi ei wneud trwy weithdrefnau rheoli datblygu. Mae rhannau i'r chwarel a fyddai'n medru diwallu'r meini prawf gwaharddiad canlynol, y'u nodir o dan ddiffiniad Ffigwr 4.4:

- Tir ble mae olion unrhyw strwythur neu weithgaredd wedi ymdoddi i'r dirwedd dros amser fel bod modd ei ystyried, yn rhesymol, fel rhan o'r amgylchedd naturiol.

5.98 Fel nodwyd yn flaenorol, yn aml 'gwneud dim byd' yw'r ffordd orau o adfer safleoedd mwynol i hyrwyddo bioamrywiaeth ac fe all rhannau o'r chwarel ble mae llystyfiant wedi tyfu o'r newydd fod yn fodel neu'n dempled cadwraeth i gynnwys elfennau o fioamrywiaeth i'r cynllun adfer. Er hynny, roedd y safle'n gwbl weithredol mor ddiweddar â 2008, ac er bod rhannau o'r safle wedi datblygu'n gynefin bywyd gwyllt ers hynny, dylid cadw mewn cof y gallai gweithgaredd sy'n ymwneud ag ennill a gweithio mwynau ar y safle ail-gychwyn o dan amodau penderfyniad ROMP ar unrhyw adeg heb rybudd ymlaen llaw.

5.99 O ystyried popeth uchod, er bydd gweithgaredd yn cael effaith ar y cynefin sydd newydd ymsefydlu yn y safle, ni ystyrir y byddai gwerth cadwraeth natur yr ardal yn gorbwyso'r cynnigion i ail-ddefnyddio'r safle, o ystyried bod tystiolaeth glir bod gallu gan y safle i'w adfer ei hun mewn byr amser.

**<u>Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau</u>**

5.100 O dan Reoliadau Cynefinoedd 2010, dylid asesu cynlluniau a phrosiectau nad ydynt ar gyfer rheoli Safle Ewropeaidd am eu heffeithiau arwyddocaol ar unrhyw Safle Ewropeaidd. Mae sawl Safle Ewropeaidd a all gael ei effeithio o bosib gal y bwriad hwn yn y Gwaith Briciau:

- ACA Afon Menai a Bae Conwy
- ACA Glynllifon
- ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn

5.101 <u>Y Fenai ac Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Conwy (ACA).</u>

- Mae ACA Y Fenai 1.8km o'r Gwaith Brics.
- Mae ACA Culfor Menai'n islanwol ar y cyfan ac fe'i dynodir am ei chynefinoedd morol

5.102 Mae cynefinoedd ACA Culfor Menai a Bae Conwy'n sensitif i lygriad gwenwynig o ollyngiadau/gollyngiadau damwieniol/trwytholchion halogedig o gyfleusterau gwastraff/gollyngiadau carthffrydiau cartrefi.

5.103 Lleolir y compownd a gynnigir o fewn 20 metr o Afon Seiont ac mae y tu mewn i barth llifogydd C2. Dengys Asesiad Canlyniad Llifogydd (Ymgynghorwyr WaterCo Ebrill 2016)

bod tebygolrwydd isel o lifogydd yn y compownd arfaethedig a'i fod yn annhebygol y bydd y deunydd a gaiff ei storio ar y safle'n cael ei olchi i Afon Seiont a'i gludo i'r môr.

5.104 Casgliad yn datgan bod y cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ACA Y Fenai.

5.105 Ardal Cadwraeth Arbennig Glynllifon

- Mae ACA Glynllifon wedi'i dynodi am ei phoblogaeth o'r Ystlum Bedol Leiaf.
- Mae'r gwaith brics chwe chilomedr o ACA Glynllifon.

5.106 Mae ystlumod pedol lleiaf yn medru hedfan dros 14 cilomedr mewn noson ac mae'n debygol bod unrhyw ystlumod pedol lleiaf sydd yn y gwaith brics yn rhan o feta boblogaeth ACA Glynllifon. Gwybyddir fod ystlumod pedol lleiaf yn clwydo yn y gwaith brics, 130 metr o leoliad y compownd arfaethedig. Mae'r glwydfan hon yn safle gaeafgysgu (er bod ystlumod yn bresennol yn ystod misoedd yr haf) ac mae nifer isel o ystlumod (3-11) yno. Mae Afon Seiont yn darparu porthfa hanfodol a llwybr cymudo i'r ystlumod pedol lleiaf yn yr ardal.

5.107 Mae'r cynnig yn anhebygol o gael effaith ar glwydfan yr ystlumod yn uniongyrchol, ond fe all goleuadau ar unrhyw safle a cholli cynefin ac amharu ar allu'r ystlumod i borthi neu fe all dorri eu llwybrau cymudo. Ni fyddai'r cynnig yn cael effaith hirdymor ar boblogaeth yr ystlum bedol leiaf; mae yn bwysig, fodd bynnag, fod y safle'n cael ei adfer i fod yn gynefin sy'n addas i ystlumod.

5.108 ACA Afon Gwyrfai a Llyn Cwellyn

- Mae ACA Afon Gwyrfai wedi'i ddynodi am gynefinoedd a rhywogaethau:

5.109 Unig nodwedd ACA Gwyrfai a all gael ei heffeithio gan y cynnig hwn yw'r dyfrgi. Caiff Afon Seiont ei defnyddio gan ddyfrgwn ac mae'n annhebygol bod y dyfrgwn ar hyd Afon Seiont yn rhan o'r boblogaeth sy'n gysylltiedig ag Afon Gwyrfai.

5.110 Mae'n annhebygol y byddai'r gwaith yn effeithio'r dyfrgwn ac mae'n annhebygol y byddai'r cynnig yn cael effaith arwyddocaol ar ACA Afon Gwyrfai. Mae'n bwysig, fodd bynnag, parthed symudiad y dyfrgwn trwy'r dirwedd bod y safle'n cael ei adfer gyda ffosydd/cyrsiau dŵr i greu cynefin gymudo i ddyfrgwn.

Crynodeb

5.111 Mae'r bwriad i ddefnyddio'r safle fel safle ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd gan gynnwys compownd, swyddfeydd, storfa danwydd, tanc storio carthion, peiriannau concrid symudol, peiriannau asffalt symudol, a darparu llwybr cludo yn hen Waith Briciau Caernarfon, yn anhebygol o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw safleoedd sydd wedi'u dynodi dan Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae CNC yn cytuno â chasgliad asesiad yr ACLl dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 na fydd unrhyw risg arwyddocaol o effeithiau ar safleoedd wedi'u gwarchod (SPA/ACA/SoDdGA) yn sgil y cynigion datblygu.

5.112 I grynhoi, mae effaith y cynigion yn cynnwys: disodli corff o ddŵr o ganlyniad i fewnlenwi swmp y chwarel; a gosod deunyddiau a fewnforiwyd mewn gwaith atgyweirio; a mynd i'r afael â sefydlogrwydd llethr ar hyd wynebau presennol y chwarel. Hefyd, cael gwared â choed, llystyfiant daear a chynefin mosaic agored er budd gweithgareddau sy'n ymwneud â chael gwared â deunyddiau o ddyddodion gwaith mwyn; gostwng lefel y tir y tu mewn i'r iard frics; a chynnal gwaith peirianneg sy'n anghenrheidiol er adlinio llwybrau cludo. Ni ystyrir y bydd unrhyw bryderon bioamrywiaeth arwyddocaol yn codi o ganlyniad i ddefnyddio'r iard goncrit fel compownd y safle am gyfnod dros dro, ar wahân i gael gwared â'r buddleia sy'n ei

hadu ei hun. Er bod adfer y darn concrid ar laswelltir hawdd i'w gynnal wedi'i gynnwys yng nghynlluniau'r cais, pery'r dewis i'w gadw fel y mae gan ei bod yn bosib y bydd cynllun ymchwil tir pellach yn angenrheidiol pe digwydd unrhyw halogiad. Mae dal yn ofynnol i'r llain galed o goncrid gael ei thrin a'i hadfer yn unol â thelerau'r hawliau mwynau sydd wedi eu dilyn yn rhannol ar ôl dymchwel a gwaredu'r ffatri gwneud briciau. Fodd bynnag, os yw'r rhan fwyaf o'r safle am gael ei hadfer i fod yn warchodfa natur yn unol ag amcanion cadwraeth, fe ellir parhau i ddefnyddio'r llain galed fel cyfleuster parcio ceir a byddai'r cynnig felly'n cydymffurfio â pholisïau B15, B16, B17, B19, B20, B21, C9, C14 & D13 y Cynllun Datblygu Unedol yn ogystal â pholisïau TWR 1 AMG 4 & MWYN 4, MWYN 9 & MWYN 10 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd allddodol.

5.113 Fel nodwyd eisoes, ystyrir y dylai amod gael ei roi ar y datblygiad i gyfyngu hyd y gweithgareddau sy'n ymwneud â mewnforio deunyddiau at ddiben adfer y chwarel i dair blynedd o'r pryd y cyhoeddir yr hysbysiad o'r gweithgareddau mewnlenwi tir sydd eu hangen mewn perthynas â gwaith y ffordd osgoi. Yn ogystal, bydd cynllun graddol o waredu ac adfer i dargedu ardaloedd allweddol yn ystod cyfnod y datblygiad yn destun amod ynghyd ag arolwg topograffig i gael ei gyflwyno er cymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Mwynau pan ddaw gweithgareddau i ben, er mwyn darparu ymchwiliad cyflawn o'r deunyddiau sydd ar gael at ddibenion adfer.

5.114 Un o'r prif faterion bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn yw effeithiau posib y cynnig ar borthiant a llwybrau cymudo ystlumod. Gallai amcanion adfer gynnwys mesurau lliniaru ar gyfer y boblogaeth ystlumod a gallai'r prif amcanion gynnwys:

- Cynllun ar gyfer rheoli a gwaredu rhywogaethau ymledol
- Ymestyn y glwydfan bresennol i ystlumod
- Creu mosaig o byllau bychan ar draws gwaelod gwagle'r chwarel
- Creu ardal fwy o laswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau a nodweddion rhywogaethau, e.e. clwydfannau ystlumod, gwâl i ddyfrgwn, safleoedd gaeafgysgu i ymlusgiaid a digon o ardaloedd ar gyfer adar sy'n nythu.
- Cynllun lliniaru ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig
- Cynllun monitro ac ôl-ofal
- Adfer y safle yn barc natur

**Materion cynaladwyedd**

5.115 Mae Ffigur 4.2 Polisi Cynllunio Cymru'n rhoi diffiniad o ddatblygiad cynaliadwy yng Nghymru ble mai Yma, ystyr "datblygu cynaliadwy" yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler adran 5) gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant. Ymhellach, mae'r adroddiad hwn wedi asesu materion cynaliadwy'r cais hwn yn unol â'r nod datblygu cynaliadwy ym mharagraff 4.1.1. o BCC i: "“galluogi pawb ym mhob cwr o’r byd i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a mwynhau gwell ansawdd bywyd heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau’r dyfodol.” Ac yn unol â saith nod lles 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' i helpu sicrhau bod pob corff cyhoeddus yn gweithio tuag at yr un weledigaeth o Gymru Gynaliadwy.

5.116 Fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau bod adnoddau mwynau’n cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy, fel y gallant gyfrannu’n briodol at ofynion deunyddiau adeiladu’r ardal. Mae'r safle mewn lleoliad delfrydol fel ffynhonell o ddeunyddiau mewnlenwi ac/neu agregau ar gyfer cynllun y ffordd osgoi, gan ei fod yn union yn ymyl llwybr y ffordd osgoi arfaethedig. Byddai hyn yn hanneru'r nifer o

siwrneai gan loriau trymion ac yn gostwng y nifer o filltiroedd y mae cerbydau trymion yn eu teithio ar ffyrdd cyhoeddus yn ystod y ddwy flynedd o adeiladu. Gallai'r safle felly weithredu fel pwll benthyg yn unol â pholisïau cyffredinol Polisi C19 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Pholisi MWYN 9 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd allddyfodol.

5.117 Er mai tirlenwi yw'r cyfleuster rheoli gwastraff lefel isaf o hyd, mae ambell safle yn lleol sy'n meddu ar y capasiti i ymdrin â'r tunelli o ddeunyddiau anaddas a gynhyrchir gan gynllun y ffordd osgoi. O ran ei leoliad, mae'r safle'n cynnig ymdriniaeth 'egwyddor agosrwydd' i anghenion prosiect y ffordd osgoi. Byddai cynigion adfer a pheirianneg ar gyfer Afon Seiont yn ymdrin ag unrhyw effeithiau amgylcheddol negyddol ar aneddleoedd cyfagos a gyfyd yn sgil cerbydau trymion ac fe ddônt ag arbedion sylweddol o ran y maint o danwydd a ddefnyddir ynghyd â gostyngiad mewn allyriadau cerbydau. Fodd bynnag, dim ond cyhyd â'i hystyrir yn ategol i anghenion prosiect isadeiledd ffordd sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth y mae'r datblygiad ger Afon Seiont yn gynaliadwy, a bod cyfyngiad ar ei gyfnod yn unol â hynny; a ble bo deunyddiau anaddas sy'n cael eu creu fel sgil-gynnyrch adeiladu ffordd yn medru cael eu defnyddio mewn gwaith adfer, ac er mwyn ymdrin â materion sefydlogrwydd tir yn y safle.

**Yr Economi**

5.118 Mae Nodyn Cyngor Technegol 23, Datblygiad Economaidd, yn datgan: wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio, bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol gadw mewn cof bod defnydd busnes traddodiadol, dosbarthiadau B1 – B8, ddim ond yn cyfrif am ran o'r gweithgaredd yn yr economi. Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn cydnabod yr agwedd economaidd o bob datblygiad ac yn gwneud penderfyniadau cynllunio mewn modd cynaliadwy sy'n cadw cydbwysedd rhwng ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n datgan ymhellach: y dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod arwyddion y farchnad a rhoi sylw i'r angen i dywys datblygiad economaidd i'r lleoliadau mwyaf addas yn hytrach na rhwystro neu atal y fath ddatblygiad.

5.119 Fel nodwyd eisoes, mae Cefnffordd yr A487 yn ffurfio rhan o'r prif rwydwaith ffyrdd strategol yng Ngogledd Cymru sy'n cysylltu â choridor yr A55 ymhellach draw ar hyd yr arfordir. Bydd cynllun y ffordd osgoi yn gwella problemau tagfeydd traffig yn ardal Caernarfon a Bontnewydd gan ddarparu cyswllt rhwng rhannau wedi'u gwella o'r Gefnffordd a mynd i'r afael â'r angen am seilwaith ffyrdd sy'n gyson o ran eu hansawdd.

5.120 Ceir manteision economaidd, logistaidd ac amgylcheddol o ddefnyddio'r chwarel mewn cysylltiad ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 o Gaernarfon i Bontnewydd. Mae hefyd yn debygol y bydd y cynnig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol 16 y Cynllun Datblygu Unedig.

**Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

5.121 Ni ellir asesu'r effeithiau ar lwybrau cyhoeddus sy'n croesi'r chwarel a'r ffordd gludo ogleddol o safbwynt cynigion y datblygiad gan y bydd yr hawliau tramwy sefydledig hyn yn destun gorchmynion gwyro y'u rhoddir ar waith yn unol â gofynion y cynllun ffordd osgoi.

**6. Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

6.1.1 Mae'r prif bryderon a godwyd gan drydydd partïon mewn ymateb i ymgynghoriad ar y cais yn cynnwys, yn bennaf, effaith bosib ar amwynder preswyl, cludiant, sŵn, llwch, dirgryniad ac oriau gwaith, bioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth ddiwylliannol, llifogydd, sefydlogrwydd tir, hirhoedledd gweithgaredd, ac effeithiau cronnus gyda chynigion y ffordd osgoi.

6.2 Mae’r Awdurdod Cynllunio Mwynau wedi ystyried y gwrthwynebiadau hyn fel ystyriaethau perthnasol wrth baratoi argymhelliad ar gyfer y cais hwn. Ymhellach, mae’r ystyriaethau perthnasol sy’n gysylltiedig â’r bwriad hwn wedi cael eu hasesu yng nghyd-destun polisïau a chanllawiau cynllunio perthnasol, ac ni ystyrir bod cyfiawnhad i wrthod y cais.

**7. Casgliadau**

7.1 Mae hwn yn un o ddau gais cynllunio cyfredol sydd wedi'u cyflwyno ar gyfer cynigion i ddefnyddio'r safle mewn cysylltiad â chynllun ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd. Mae'r holl elfennau sy'n llunio rhan o gais cysylltiedig C17/0107/19/LL wedi'u cynnwys yn y cynigion datblygu sydd wedi'u cyflwyno gyda'r cais hwn. Mae'r dogfennau cefnogi perthnasol a'r wybodaeth amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol wedi'u hystyried yng nghyd-destun y cynigion datblygu sydd wedi'u cynnwys yn y cais cynllunio hwn.

7.2 Mae'r safle eisoes yn meddu ar ganiatâd cynllunio i dynnu a gweithio mwynau a byddai'n cael ei ddefnyddio fel canolfan gweithgareddau sy'n atodol i'r cynllun ffordd osgoi, gan gynnwys swyddfeydd safle, gwaith sypynnu asffalt a choncrid, cyfleuster prosesu deunyddiau; byddai hefyd ganddo'r capasiti i gynnal y gwaith peirianneg sifil er gwaredu deunyddiau anaddas i gael eu hadfer ac fel ffynhonell deunyddiau mewnlenwi a gynhyrchir yn sgil ail-gydio yn y gweithgareddau chwarelyddol.

7.3 Nodwedd hanfodol gweithgaredd adferol yw mai ei brif nod yw defnyddio'r gwastraff yn lle deunyddiau eraill a fyddai wedi cael eu defnyddio i'r diben hwnnw, a chan hyn, warchod adnoddau naturiol. Gellir defnyddio'r deunyddiau anaddas a grëir fel sgil-gynnyrch prosiect adeiladu'r ffordd osgoi mewn gwaith adfer ond hefyd i ymdrin â materion o sefydlogrwydd tir sy'n ymddangos mewn dyddodion clai a rhewlifol. Fodd bynnag, dim ond cyhyd â'i hystyrir yn ategol i anghenion prosiect isadeiledd ffordd sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth y mae'r datblygiad ger Afon Seiont yn gynaliadwy, a bod cyfyngiad ar ei gyfnod yn unol â hynny. Bydd egwyddorion cyffredinol polisi C24 y CDU (tirlenwi a chodi tir) a GWA 2 y Cynllun Datblygu Lleol allddyfodol yn berthnasol wrth ystyried a yw'r datblygiad yn cydymffurfio â nifer o feini prawf parthed angen, lleoliad, graddfa, y gallu i reoli'r safle, darpariaeth dderbyniol ar ôl ei ddefnyddio, mesurau lliniaru, effaith ar drafnidiaeth a sicrhâd na fydd y datblygiad yn niweidio buddion cynaliadwyedd.

7.4 Gellir ystyried mai datblygiad sy'n atodol i anghenion y prosiect isadeiledd ffordd a ariennir gan Lywodraeth yw'r datblygiad ger Afon Seiont ac y byddai dan gyfyngiad amser yn unol â hynny; ac fe ystyrir bod Polisi C3 o'r CDU a Pholisi CYF 2 o'r Cynllun Datblygu Lleol Allddyfodol yn berthnasol, (*cynigion sy’n rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o’r blaen a leolir o fewn neu o gwmpas ffiniau datblygu cyn belled â bod y safle neu’r adeilad a’r defnydd yn addas*) o ystyried bod hwn yn gynnig i ailddefnyddio safle gyda chaniatâd cynllunio dilys ble daeth gwaith i ben yn 2008. Hefyd, datgan paragraff 4.9 Polisi Cynllunio Cymru, '*ffafriaeth i ailddefnyddio tir'* fel a ganlyn; 'Mae’n bosibl y gallai llawer o safleoedd a ddatblygwyd o’r blaen mewn ardaloedd adeiledig fod yn rhai addas i’w datblygu gan y bydd eu hailddefnyddio’n hyrwyddo amcanion cynaliadwyedd'

7.5 Dim ond ychydig o safleoedd sy'n meddu ar y gofod mewnlenwi i ymdopi â'r tunelli o ddeunyddiau anaddas a grëir gan y cynllun ffordd osgoi. Byddai defnyddio Chwarel Seiont yn gwarchod y gofod gwag presennol a ganiatawyd ar gyfer anghenion adeiladu lleol a byddai'n datrys unrhyw effeithiau amgylcheddol niweidiol a gyfyd yn sgil trafnidiaeth drom ar aneddleoedd cyfagos ac o ganlyniad i isadeiledd ffyrdd lleol; byddai hefyd yn darparu ymdriniaeth 'egwyddor agosrwydd' i anghenion y prosiect. Nid yw'r cynnig felly'n cynnig seilwaith rheoli gwastraff tymor hir ychwanegol ar gyfer gwaredu gwastraff anadweithiol,

felly; yn hytrach, cais am ddatblygiad sy'n atodol i anghenion y cynllun ffordd osgoi ydyw a ddylai gael ei gwblhau mewn cyfnod go fyr o amser. Felly, ystyrir fod y datblygiad mewn egwyddor yn cydymffurfio â Pholisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol ynghyd â gofynion Polisïau: A1, A3, C3, C9, C14, C15, C19, C22 & C24 y Cynllun Datblygu Unedol a Pholisïau: CYF 2, PCYFF 1, TRA 1, GWA 2, MWYN 4, MWYN 9 & MWYN 10 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd allddyfodol.

7.6 Er bod graddfa'r gweithfeydd a safle'r hen waith briciau yn sylweddol, yn gyffredinol, mae'r safle yn cael ei sgrinio'n dda gan lystyfiant aeddfed, topograffi o'i amgylch ac amgylchedd maestrefol Caernarfon. Ni ystyrir y bydd y cynnig, yn ei grynswth neu fel prosiect ar ei ben ei hun, yn cael effeithiau arwyddocaol ar ddynodiadau tirwedd statudol nac anstatudol. Byddai'r newid gweledol mwyaf yn digwydd ar ogledd-orllewin y pwll clai ble mae cynnig wedi ei wneud am ffordd gludo newydd a fyddai'n cysylltu â'r ffordd osgoi mewn ardal o dir pori amaethyddol. Byddai Ysbyty Eryri a'r llwybr troed sy'n rhedeg ar hyd Afon Seiont o'r A4085 i Ffordd Melin Seiont yn cael eu heffeithio gan sefydlu a gweithredu compownd y safle a'r gwaith o adeiladu ffordd gludo newydd. Gyda chynllun adfer graddol i dargedu ardaloedd penodol, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol mewn egwyddor o ran bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisïau B8, B12, B27 a C3 y Cynllun Datblygu Unedol ynghyd â Pholisïau PCYFF 1, AMG 2, AT 1 a'r Polisi AHNE newydd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd allddodol.

7.7 Ni ystyrir y bydd y cynnig, yn ei grynswth neu fel prosiect ar ei ben ei hun, yn cael effaith arwyddocaol tymor hir ar asedau treftadaeth ddiwylliannol nac ar fuddion geomorffoleg y safle ac mae'r cynnig yn cydymffurfio â Pholisi C9, C15, C19, C22, C24, B3, B6, B7, B12 & B18 CDU Gwynedd a hefyd gyda Pholisi PCYFF 1, AMG 2, AT 1, AT 4, GWA 2, MWYN 4, MWYN 6, MWYN 9 & MWYN 10 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd allddyfodol.

7.8 Bydd dechrau a gorffen gweithgareddau yn destun rhybudd ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael eu cwblhau mewn cyn lleied o amser â phosib er mwyn amharu cyn lleied â phosib ar amwynder lleol. Yn sgil gosod amodau cynllunio i gyfyngu ar effeithiau sŵn, llwch, cludo, oriau gweithio a hyd y prosiect (3 blynedd i ganiatáu ar gyfer mewnforio deunydd a 5 mlynedd i gyd), ystyrir bod y datblygiad yn cydymffurfio â pholisi B23, B30, B33, C9, C19 C22 & C24 y CDU yn ogystal â Pholisi CYFF 1 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd allddodol. Rhestrir materion a fyddai fel arall yng nghylch gorchwyl Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr adroddiad hwn, e.e. 'bydd gofynion am drwydded gwastraff o dan Reoliadau Hawliau Amgylcheddol 2010 yn cael eu cyflwyno at sylw'r datblygwr trwy 'rybudd i ymgeisydd' a gaiff ei gyflwyno gyda'r caniatâd cynllunio, ond ni fydd yn ymddangos yn y rhestr o amodau cynllunio ar y rhybudd o benderfyniad.

7.9 Ceir manteision economaidd, logistaidd ac amgylcheddol o ddefnyddio'r chwarel o safbwynt ardrawiad priffyrdd, gan ei fod yn union gerllaw llwybr arfaethedig y ffordd osgoi. Bydd dewis defnyddio chwarel gyda chyswllt uniongyrchol â'r ffordd osgoi trwy ffyrdd cludo mewnol yn golygu na fyddai'n rhaid defnyddio cerbydau trwm ar ffyrdd cyhoeddus ar gyfer gwaith cludo yn ôl a blaen o'r chwarel a bydd y cynnig felly'n cydymffurfio â C9, C19, CH33 & CH36 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, yn ogystal â Pholisi PS5, MWYN 4, MWYN 9 & TRA 1 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Allddyfodol.

7.10 O safbwynt asesu materion cynllunio, ystyrir bod y cais a'r Datganiad Amgylcheddol yn rhoi asesiad cynhwysfawr a mesurau lliniaru addas i faterion sy'n ymwneud â rheoli llifeiriant dŵr wyneb, perygl o lifogydd, gwarchod yr amgylchedd, ac atal llygru, ac mae'r cynnig yn cydymffurfio â gofynion A1, A3, B28, B30, B32, B33, C3, C9, C15, C19 & C22 Cynllun

Datblygu Unedol Gwynedd yn ogystal â Pholisïau PS5, PS6, PS18, PS19, PCYFF 1, PCYFF5 GWA2, MWYN 4 & MWYN 9 y Cynllun Datblygu Lleoli ar y Cyd allddyfodol.

7.11 Mae'r bwriad i ddefnyddio'r safle fel safle ar gyfer gwaith sy'n atodol i'r ffordd osgoi arfaethedig yr A487 Caernarfon i Bontnewydd gan gynnwys compownd, swyddfeydd, storfa danwydd, tanc storio carthion, peiriannau concrid symudol, peiriannau asffalt symudol, a darparu llwybr cludo yn hen Waith Briciau Caernarfon, yn anhebygol o gael effaith arwyddocaol ar unrhyw safleoedd sydd wedi'u dynodi dan Reoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae CNC yn cytuno â chasgliad asesiad yr ACLl dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 na fydd unrhyw berygl arwyddocaol y bydd safleoedd wedi'u gwarchod (SPA/ACA/SoDdGA) yn cael eu heffeithio yn sgil y cynigion datblygu.

7.12 Nid yw'r safle ei hun yn destun unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol megis SAC Ewropeaidd neu ddynodiad ADdGA ac, ar y cyfan, nid yw'n cynnwys unrhyw gyfyngiadau bioamrywiaeth leol. Er y gall gweithgareddau effeithio ar y cynefin newydd yn y safle, ni ystyrir y byddai gwerth cadwraeth natur yr ardal yn gorbwyso'r cynigion i ail-ddefnyddio'r safle, o ystyried bod tystiolaeth glir bod gallu gan y safle i'w adfer ei hun mewn byr amser. Pe bai lliniaru priodol yn digwydd yn unol ag amodau cynllunio parthed rhywogaethau gwarchodedig, a bod darpariaeth i adfer y ffordd gludo, byddai'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau B15, B16, B17, B19, B20, B21, C9, C14 & D13 y Cynllun Datblygu Unedol yn ogystal â pholisïau TWR 1 AMG 4 & MWYN 4, MWYN 9 & MWYN 10 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd allddodol.

7.13 Parthed ymdrin â'r mater o sefydlogrwydd tir posib, mae'r cynnig yn cydymffurfio â Pholisi B28, C9, C14 & C19 Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Pholisïau PCYFF 1, MWYN 4, MWYN 9 & MWYN 10 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd allddodol. Byddai mewnlenwi swmp y chwarel hefyd yn ymdrin ag unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â mynediad y cyhoedd i hen chwarel gyda chorff o ddŵr dwfn ynddi.

7.14 Mae Cefnffordd yr A487 yn ffurfio rhan o'r prif rwydwaith ffyrdd strategol yng Ngogledd Cymru sy'n cysylltu â choridor yr A55 ymhellach draw ar hyd yr arfordir. Bydd cynllun y ffordd osgoi yn gwella problemau tagfeydd traffig yn ardal Caernarfon a Bontnewydd gan ddarparu cyswllt rhwng rhannau wedi'u gwella o'r Gefnffordd a bydd yn mynd i'r afael â'r angen am seilwaith ffyrdd sy'n gyson o ran eu hansawdd.

7.15 Ceir manteision economaidd, logistaidd ac amgylcheddol o ddefnyddio'r chwarel mewn cysylltiad ag adeiladu ffordd osgoi arfaethedig yr A487 o Gaernarfon i Bontnewydd. Mae hefyd yn debygol y bydd y cynnig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol 16 y Cynllun Datblygu Unedig.

7.16 Mae'r cynnig yn cwrdd ag anghenion cynaliadwyedd Polisi Datblygu Lleol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7.17 O ystyried yr uchod ac o ystyried yr holl faterion perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, a'r sylwadau a dderbyniwyd gan gynnwys llythyrau gwrthwynebu, ni chredir fod y cynnig yn annerbyniol nac yn mynd yn groes i ofynion y polisïau a restrir uchod. Yn seiliedig ar yr uchod, felly, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol.

## 8. Argymhelliad

**8.1 Awdurdodi Uwch Reolwr y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd i benderfynu'r cais yn ddarostyngedig i'r amrediad o amodau a ganlyn a, ble noder, i gyflwyno gwybodaeth benodol yn unol â gofynion amodau cyn dechrau'r datblygiad:**

- Dechrau ymhen tair blynedd
- Hyd y caniatâd wedi ei gyfyngu i bum mlynedd o gyflwyno'r rhybudd dechrau gyda gweithgaredd yn ymwneud â mewnforio deunyddiau er adfer y chwarel yn gyfyngedig i ofynion y cynllun ffordd osgoi ac wedi'i gyfyngu i gyfnod o dair blynedd o gyflwyno rhybudd dechrau gweithgaredd tirlenwi
- Arolwg topograffig i gael ei gyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau ar unwaith pan ddaw'r gweithgareddau i ben; i gynnwys archwiliad cyflawn o'r deunyddiau sydd ar gael at ddibenion adfer. Os yw cyfaint y deunyddiau a ddeillia o waith adeiladu'r ffordd osgoi yn annigonol i gwblhau'r gwaith o adfer y safle yn unol â chynlluniau'r cais, bydd cynllun adfer diwygiedig yn cael ei gyflwyno er cymeradwyaeth gan yr awdurdod cynllunio mwynau
- Cynllun adfer graddol i dargedu ardaloedd allweddol
- Cynllun adfer diwygiedig ar gyfer y ffordd gludo ogleddol er mwyn ei adfer er dibenion amaethyddol yn unol â'r canllawiau yn Atodiad B-D NCT 1 (Agregau), gan fanylu ar y cyfaint a lleoliadau storio pob deunydd sydd wedi'i glustnodi at ddibenion adfer, h.y. ni ddylai deunyddiau a gloddiwyd wrth greu'r ffordd gludo gael eu hallforio oddi ar y safle
- Gweithgareddau a ganiateir a Chydymffurfiaeth â’r Manylion/Cynlluniau a Gyflwynwyd
- Amseroedd gwaith fel y maent: 07:00 - 19:00 ddydd Llun i ddydd Gwener; 07:00 - 13:00 ddydd Sadwrn, a dim gweithio mwynau ar ddydd Sul, Gwyliau Banc a Gwyliau Cyhoeddus.
- Cludiant sy'n ymwneud ag allforio a mewnforio deunyddiau, a danfon deunyddiau ar gyfer gwaith sypynnu concrid ac asffalt i gael ei gyfyngu at y llwybrau cludiant pwrpasol a ddangosir ar gynllun y cais
- Cynllun plannu coed a llwyni cyflawn yn gynwysedig mewn gwaith adfer,
    - Sŵn yn ystod oriau gwaith arferol (0700-1900), ni ddylai'r lefel graddfa sŵn fod yn fwy na 55dB(A) LAeq, 1 awr (maes agored). Gyda'r nos (1900-2200), ni ddylai'r cyfyngiadau fod fwy na 10dB(A) uwchlaw'r lefel cefndirol
    - Ni ddylai cyfyngiadau yn ystod y nos fod yn uwch na 42 dB (A) LAe1, 1 awr maes agored ger anheddau sensitif. (MTAN1).
    - Gweithrediadau dros dro i fod ddim mwy na 70 dB LAeq, 1 awr (maes agored) am hyd at 8 wythnos y flwyddyn.
    - Cynnal arolwg monitro sŵn yn unol â chais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau, i gydymffurfio â Safon Brydeinig BS.4142:2014 'Methods for rating and assessing industrial and commercial sound', i asesu ac arddangos cydymffurfiaeth â'r cyfyngiad sŵn ffiniol.
    - Defnyddio larymau sŵn gwyn ar gyfer gyrru wysg eich cefn;
- Strategaeth adferiad os canfyddir, yn ystod y datblygiad, halogiad nad oedd wedi'i ganfod yn flaenorol,
- Storio tanwydd,
- Gofyniad i nodi manylion cyflawn y tanc storio dŵr budr i gael ei gyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio lleol cyn cychwyn gwaith gydag amod pellach yn gofyn bod unrhyw seilwaith dros dro sy'n ymwneud â draeniad budr/carthffosiaeth ar y safle wedi'i ddigomisiynu'n llwyr ac wedi'i symud o'r safle pan ddaw'r caniatâd i ben,
- Defnyddio bowser dŵr ar lwybrau cludo, gwlychu ardaloedd prosesu a deunyddiau wedi'u prosesu, a chadw log o gwynion yn ymwneud â llwch.
- Arolwg llwch yn cael ei gynnal am o leiaf chwe mis mewn lleoliadau wedi'u cytuno a bod gwaith mathru, sgrinio, trosglwyddo a gweithrediadau eraill sy'n debygol o arwain at lwch a gludir yn yr aer yn cael ei wneud mewn adeilad priodol.
- Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu i sicrhau fod arfer da a mesurau lliniaru da wedi'u sefydlu i amddiffyn yr amgylchedd dyfrol, gan gynnwys: amodau gwaith ar y safle a mesurau i

reoli effeithiau amgylcheddol megis symudiadau cerbydau trymion, cyfleusterau golchi olwynion, gorchuddio cerbydau, ardaloedd storio diogel, ansawdd aer, oriau gwaith, sŵn/dirgryniad, rheoli gwastraff a llygredd. Hefyd, monitro'r dŵr ffo posib o ddeunyddiau llaid a gwastraff i liniaru ardrawiad posib y datblygiad a gweithdrefnau arllwyso ar yr amgylchedd

- Darpariaeth ar gyfer cofnodi cloddiadau y tu mewn i Safle Geomorffoleg Daearegol o Bwys Rhanbarthol (RIGS),
- Gall manylion unrhyw oleuo allanol fod yn destun amod cynllunio, felly hefyd y gall cael gwared â llystyfiant.
- Lliniaru ardrawiadau posib ar amgylchedd yr afon (pellter sefyll),
- Nodyn i'r ymgeisydd yn cyfeirio at ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru, Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Gwynedd, y Gwasanaeth Erydu Arfordirol, Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd, a Dŵr Cymru i'r ymgynghoriad, gan gyfeirio'n benodol at reolaeth benodol yn eu cylchoedd gorchwyl nhw
- Nodyn i'r ymgeisydd mai cyfrifoldeb ac atebolrwydd canlynol y datblygwr ac/neu'r tirfeddianwr yw datblygu a meddiannu'r safle'n ddiogel.
- Nodyn i'r ymgeisydd bod y cais wedi ei asesu'n unol â saith amcan cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.